Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Swyddfa Farnwrol

# Diwygio'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

## Ymgynghoriad ar strwythurau gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol

Mawrth 2025

CP 1286

# Diwygio'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

## Ymgynghoriad ar strwythurau gweinyddol yr ynadaeth yn y dyfodol

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Mawrth 2025

CP 1286

**© Hawlfraint y Goron 2025**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint sydd dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â’r cyhoeddiad hwn atom yn ljaconsultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5500-2

E03309636 03/25

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **I:** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynadon yng Nghymru a Lloegr a allai gael eu heffeithio arnynt gan y strwythur newydd arfaethedig fydd yn deillio o ddiddymu ardaloedd cyfiawnder lleol; unigolion neu grwpiau eraill sydd â diddordeb penodol yn yr ynadaeth ac aelodau o'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. |
| **Hyd:** | O 31/03/25 i 23/06/25 |
| **Dylid anfon ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i:** | Magistrates Policy Team / Tîm Polisi Ynadon<br>Post Point 9.20<br>Ministry of Justice / Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>102 Petty France<br>London / Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: ljaconsultation@justice.gov.uk gan ddefnyddio'r llinell pwnc 'CONSULTATION ENQUIRY – LOCAL JUSTICE AREA REFORMS' |
| **Sut i ymateb:** | Dylech ymateb ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reform-of-local-justice-areas-consultation erbyn 23/06/25 |
| **Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich barn:** | Magistrates Policy Team / Tîm Polisi Ynadon<br>Post Point 9.20<br>Ministry of Justice / Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>102 Petty France<br>London / Llundain SW1H 9AJ<br><br>E-bost: ljaconsultation@justice.gov.uk |
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2025. |

# Cynnwys

**Yr ymgynghoriad hwn** **4**

**Rhagair gan y Gweinidog dros y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol** **3**

**Rhagair gan yr Uwch Farnwr Llywyddol** **4**

**Crynodeb gweithredol** **5**

**Cyflwyniad** **9**

Meysydd cyfrifoldeb 10

**Pennod 1: Beth yw'r ardaloedd cyfiawnder lleol a pham eu bod yn cael eu diddymu?** **12**

Beth yw'r ardaloedd cyfiawnder lleol? 12

Beth fydd canlyniadau ehangach diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol ar gyfer recriwtio, lleoli, arwain a hyfforddi ynadon? 14

**Pennod 2 – Strwythur newydd ar gyfer grwpio llysoedd ynadon** **16**

Y system bresennol 16

Grwpio ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol 16

**Pennod 3 – Pwyllgorau recriwtio a chynghori** **23**

Y system recriwtio bresennol 23

Recriwtio ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol 23

Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol 24

Llysoedd teulu a llysoedd ieuenctid 24

**Pennod 4 – Lleoli** **25**

Y broses leoli bresennol 25

Y broses leoli arfaethedig 26

Trefniadau pontio 32

**Pennod 5 – Arweinyddiaeth y Fainc** **35**

Strwythur arweinyddiaeth presennol 35

Arweinyddiaeth ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol 37

Ethol neu ddethol 39

**Pennod 6 – Hyfforddiant a Phwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu (TAAACau) 42**

Rolau a strwythur presennol y TAAACau 42

Aelodaeth TAAAC a diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol 43

Newidiadau arfaethedig i strwythur ac aelodaeth TAAACau 43

Newidiadau tymor hwy posibl i'r TAAACau 45

**Asesiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb 47**

Cyfieithu i'r Gymraeg 48

**Holiadur 49**

**Atodiad A: Mapiau sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol presennol a'r meinciau arfaethedig 53**

**Atodiad B: Tabl yn amlinellu'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol a chyfansoddiad arfaethedig y meinciau (Disgrifiad testunol o fap(iau) ardaloedd cyfiawnder lleol) 61**

**Atodiad C: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer y fainc 67**

**Atodiad D: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer recriwtio 70**

**Atodiad E: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer lleoli 71**

**Atodiad F: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer arweinyddiaeth 75**

**Atodiad G: Crynodeb o'r Cynigion ar gyfer Hyfforddiant a TAAACau 77**

**Atodiad H: Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio, wedi'u rhannu yn ôl rhanbarth, ardal 79**

**Atodiad I: Rhestr Termau 82**

**Amdanoch chi 86**

**Manylion cyswllt/Sut mae ymateb 87**

Sut mae ymateb 87

Cwynion neu sylwadau 87

Copïau ychwanegol 87

Cyhoeddi'r ymateb 87

Grwpiau cynrychioliadol 87

Cyfrinachedd 88

**Egwyddorion ymgynghori 89**

# Rhagair gan y Gweinidog dros y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae ynadaeth Cymru a Lloegr yn rhan hanfodol a gwerthfawr o'n barnwriaeth a'n system gyfiawnder, sy'n enwog am ragoriaeth ac am fod yn wrthrychol ac yn ddiduedd. O Bedlington i Bodmin, o Gaernarfon i Gaergaint, mae miloedd o ynadon yn gwirfoddoli eu hamser i chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o weinyddu cyfiawnder yn eu hardaloedd lleol a gwasanaethu eu cymunedau.

Roedd Deddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022 yn deddfu i ddiddymu'r system sydd ynghlwm wrth ardaloedd cyfiawnder lleol er mwyn gwella effeithlonrwydd wrth orfodi dirwyon a gorchmynion cymunedol. Bydd hyn yn golygu bod amser y llys a'r staff yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gan leihau'r oedi mewn achosion i ddefnyddwyr y llys. Er y byddwn yn dileu strwythurau cyfreithiol yr ardaloedd cyfiawnder lleol, rwyf wedi ymrwymo i egwyddor cyfiawnder lleol o hyd. Rwy'n gwybod bod ynadon yn teimlo cysylltiad pwysig â'r broses o weinyddu cyfiawnder yn eu cymunedau eu hunain ac yn cael budd o ffynonellau pwysig o gymorth cymdeithasol a bugeiliol wrth weithio ochr yn ochr â'i gilydd yn eu hardaloedd a'u llysoedd lleol.

Er mwyn gwarchod cyfiawnder lleol, mae'r Uwch Farnwr Llywyddol a minnau yn ymgynghori ar amrywiaeth o gynigion ynghylch sut bydd yr ynadaeth yn cael ei gweinyddu a'i chefnogi yn y dyfodol. Bydd eich ymatebion chi i'r ymgynghoriad hwn yn chwarae rhan bwysig yn y dasg o siapio ein gweledigaeth o gael strwythur gwell sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r ffordd mae ein llysoedd yn gweithredu, gan sicrhau ar yr un pryd y cedwir yr egwyddor bwysig o gyfiawnder lleol. Anogaf bawb sydd â diddordeb yn y materion hyn i ymateb.

**Sarah Sackman CB AS**

Gweinidog Gwladol

# Rhagair gan yr Uwch Farnwr Llywyddol

Bydd diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol fel rhan o Ddeddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022 (mae'r dyddiad eto i'w bennu), hefyd yn effeithio ar brosesau lleoli, arwain a hyfforddi'r ynadaeth.

Fel Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr, fy nghyfrifoldeb i (a ddirprwyir gan yr Arglwyddes Brif Ustus) yw goruchwylio'r gwaith o leoli ac arwain ynadon a phenodi pob ynad.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gweithio gyda'r Swyddfa Farnwrol, y Coleg Barnwrol a GLITEF i ddatblygu'r ymgynghoriad hwn. Gwnaethpwyd hyn oherwydd ein bod am i bob un ohonoch gael cyfle i ddweud eich dweud am drefniadau'r ynadaeth yn y dyfodol. Mae eich barn yn bwysig, ac anogaf bob un ohonoch i ymateb. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hefyd yn ein helpu i wneud penderfyniadau effeithiol. Bydd diddymu ardaloedd cyfiawnder lleol yn arwain at fanteision i'r ffordd y gwneir cyfiawnder yn y llysoedd ynadon. Bydd hyn yn cynnwys dileu'r gofynion presennol ar gyfer cofrestru dirwyon a dedfrydau cymunedol yn lleol at ddibenion gorfodi. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i wneud yn siŵr bod strwythur presennol ardaloedd cyfiawnder lleol yn cyd-fynd yn well â'r Cylchdeithiau.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar ardaloedd cyfiawnder lleol, ond fel ymarfer ar wahân, rwy'n ymgynghori ar ddiwygio strwythur llywodraethu'r ynadaeth. Bydd y casgliadau a geir mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar yr ardaloedd cyfiawnder lleol yn berthnasol i'r gwaith o adolygu'r trefniadau llywodraethu. Felly, hoffwn eich gwahodd i ystyried y ddau gyda'i gilydd.

Mae eich barn am y ddau ymgynghoriad yn bwysig dros ben. Cofiwch roi o'ch amser i ymateb.

**Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Nicholas Green**

Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr

# Crynodeb gweithredol

1. Mae ardaloedd cyfiawnder lleol yn creu ffiniau daearyddol sy'n gysylltiedig â'r pedair prif elfen sydd ynghlwm wrth weinyddu llysoedd ynadon: cychwyn a rhestru achosion; talu a gorfodi dirwyon, gorchmynion dedfryd ohiriedig, gorchmynion cymunedol a gorchmynion adsefydlu ieuenctid; recriwtio ynadon; a lleoli ynadon. Maent hefyd yn gysylltiedig â threfniadau hyfforddi ac arwain ynadon. Mae yna 75 o ardaloedd cyfiawnder lleol, a elwir yn feinciau – pob un yn cynnwys rhwng un a phum llys ynadon. Bydd pob ynad yn cael ei neilltuo i ardal cyfiawnder lleol ar ôl cael ei benodi.

2. Bydd ardaloedd cyfiawnder lleol yn cael eu diddymu pan fydd adran 45 o Ddeddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022 yn cael ei chychwyn yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Bydd diddymu'r ardaloedd yn gwella'r ffordd y mae llysoedd ynadon yn gweithredu. Mae ffiniau cyfreithiol caled ardaloedd cyfiawnder lleol wedi creu biwrocratiaeth ddiangen ac oedi wrth weinyddu gorchmynion cymunedol, gorchmynion dedfryd ohiriedig a dirwyon, gan ei bod yn anodd prosesu'r rhain mewn gwahanol ardaloedd (er enghraifft, os oes gan droseddwyr fwy nag un gosb mewn gwahanol rannau o'r wlad, neu os ydynt yn newid cyfeiriad). Yn yr un modd, pan fydd angen symud achos i ardal cyfiawnder lleol wahanol er mwyn i ddiffynnydd allu dod i lys sy'n nes at ei gyfeiriad, mae protocol cymhleth iawn i weithio o gwmpas cyfyngiadau ardaloedd cyfiawnder lleol i symud yr achos a'r ynadon. Bydd dileu strwythur cyfreithiol ardaloedd cyfiawnder lleol yn dileu'r ffiniau a'r cyfyngiadau caled hyn. Bydd hyn yn golygu y bydd llysoedd ynadon yn gweithredu'n fwy effeithlon ac yn defnyddio amser staff yn well, gan olygu manteision i dystion, diffynyddion a defnyddwyr eraill y llys.

3. Gan fod Senedd y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno deddfwriaeth i ddiddymu ardaloedd cyfiawnder lleol, nid yw'r ymgynghoriad hwn yn gofyn a ddylid eu diddymu na'r rhesymeg dros wneud hynny. Mae'n gofyn am farn am elfennau ehangach o'r ynadaeth y mae diddymu'r ardaloedd yn debygol o effeithio arnynt, ac am ein cynigion ar gyfer sut y gellir gwella rhai o'r elfennau hyn ar ôl diddymu'r ardaloedd.

4. Gan ein bod yn diddymu ardaloedd cyfiawnder lleol fel strwythur cyfreithiol, bydd angen i ni sefydlu strwythur gweinyddol ar gyfer grwpio llysoedd ynadon. Rydym yn gofyn am farn ar ein cynnig i greu **'meinciau'**, a fyddai'n strwythuro'r broses o recriwtio a lleoli ynadon. Mae'r rhain wedi'u cynllunio gyda'r bwriad o gyflawni'r amcanion canlynol:

   a) **Cynnal cyfiawnder lleol.** Er ein bod yn diddymu ardaloedd cyfiawnder lleol fel strwythur cyfreithiol, rydym yn dal wedi ymrwymo i gynnal cyfiawnder lleol fel

egwyddor. Mae gwasanaethu eu cymuned yn un o bileri canolog rôl yr ynad. Gwyddom hefyd fod cyfiawnder lleol yn bwysig iawn i'r ynadon eu hunain. Rydym yn gofyn am eich barn ar y ffordd orau o ddisodli ardaloedd cyfiawnder lleol gan gadw cyfiawnder lleol wrth galon unrhyw newidiadau;

b) **Tarfu cyn lleied â phosibl ar leoli ynadon.** Rydym yn gwerthfawrogi bod y cysylltiadau y gellir eu ffurfio mewn 'meinciau' o ynadon yn bwysig yn gymdeithasol ac yn fugeiliol, ac rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch a fyddai ein cynigion yn helpu ynadon i gynnal y cysylltiadau hyn;

c) **Osgoi cynnydd sylweddol mewn amseroedd teithio.** Rydym hefyd yn croesawu sylwadau ar ein trefniadau arfaethedig i neilltuo ynadon i 'lys cartref'. Byddent yn cael eu neilltuo i hwn ar gyfer y rhan fwyaf o'u heisteddiadau, a dylai hyn yn ei dro osgoi cynnydd sylweddol mewn amseroedd teithio;

d) Cysoni'r strwythurau newydd ar gyfer grwpiau ynadon â strwythurau ehangach y farnwriaeth;

e) **Cynnal, a lle bo'n bosibl, gwella hyblygrwydd wrth restru achosion a lleoli.** Er gwaethaf yr elfennau aneffeithlon a amlinellir ym mharagraff 2, mae rhywfaint o hyblygrwydd eisoes o ran sut mae achosion yn cael eu rhestru, a sut mae ynadon yn cael eu lleoli, ac rydym yn anelu at gadw'r trefniadau hyn yn y system newydd arfaethedig. Er enghraifft, mae eisoes yn bosibl dyrannu ynadon i lysoedd y tu allan i'w hardal cyfiawnder lleol lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn ddymunol gan yr ynad, ac mae hefyd yn bosibl symud rhestrau achosion rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol os yw'n haws delio ag achosion tebyg mewn un lle, er enghraifft, er mwyn gallu manteisio ar arbenigedd perthnasol. Byddai'r meinciau arfaethedig hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ynadon eistedd mewn cylchdeithiau barnwrol cyfagos os ydynt yn byw yn agos at ffin cylchdaith, ac y byddai hyn yn rhesymol gyfleus iddynt.[1]

5. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynghylch ai'r amcanion a restrir uchod yw'r amcanion iawn, ac a yw ein strwythur arfaethedig ar gyfer grwpio llysoedd ynadon yn eu bodloni.

6. Ac ystyried i ba raddau y mae ardaloedd cyfiawnder lleol yn sail i weithrediadau'r llysoedd ynadon, mae'n bosibl y bydd diddymu'r ardaloedd hyn yn cyffwrdd â sawl agwedd ar y ffordd y mae'r ynadaeth yn cael ei harwain a'i threfnu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ynghylch a ydym wedi mynd ati'n gywir i

---

[1] Dyma'r cylchdeithiau barnwrol: Gogledd Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Cymru, Canolbarth Lloegr, Gorllewin a De-ddwyrain Lloegr. Rhennir Cylchdaith De-ddwyrain Lloegr yn ddwy ardal weithredol at ddibenion llysoedd ynadon, sef Llundain a De-ddwyrain Lloegr (yn yr un modd â rhanbarthau GLITEF a Chymru). Byddwn yn defnyddio'r term 'cylchdeithiau' i gyfeirio at y cylchdeithiau, gan gynnwys Llundain a De-ddwyrain Lloegr fel cylchdeithiau ar wahân. Gweler yr eirfa am ragor o fanylion.

asesu'r elfennau ehangach sy'n berthnasol i weinyddiaeth ynadon y mae diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn debygol o effeithio arnynt.

7. Dim ond mân newidiadau technegol yr ydym yn cynnig eu gwneud i'r broses o recriwtio ynadon. Yn hytrach na gwneud cais i ardal cyfiawnder lleol a chael eu neilltuo iddi, byddai ynadon yn gwneud cais i fainc ac yn cael eu neilltuo iddi. Mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio sy'n prosesu ceisiadau i ymuno â'r ynadaeth yn goruchwylio un neu fwy o ardaloedd cyfiawnder lleol, felly byddai angen i'r pwyllgorau hyn oruchwylio'r meinciau perthnasol a fyddai'n disodli'r ardaloedd cyfiawnder lleol ym maes goruchwylio pob pwyllgor.

8. Darperir hyfforddiant ynadon gan y Coleg Barnwrol, gan weithio gyda'r Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACau). Mae ardaloedd TAAAC yn cynnwys un neu fwy o ardaloedd cyfiawnder lleol. Felly, bydd diddymu ardaloedd cyfiawnder lleol yn dylanwadu ar strwythurau'r TAAACau. Felly, rydym yn gofyn i ymatebwyr ystyried sut gallai'r strwythur newydd ar gyfer y TAAACau weithio, yn ogystal ag ystyried rhai cwestiynau ehangach am swyddogaeth y pwyllgorau hyn.

9. Mae arweinyddiaeth ynadon hefyd yn gysylltiedig ag ardaloedd cyfiawnder lleol, gan fod gan bob ardal Gadeirydd Mainc etholedig ac o leiaf un Dirprwy Gadeirydd Mainc. Mae diddymu ardaloedd cyfiawnder lleol yn golygu y bydd angen i ni ddileu cyfeiriadau atynt mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth. Gallai hynny olygu ailenwi neu ddileu unrhyw swyddi arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig ag ardaloedd cyfiawnder lleol. Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle i adolygu'r systemau arweinyddiaeth barnwrol hyn, a'u gwella lle bo'r angen. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch a ddylai trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer ynadon newid, ac os felly, sut y dylent newid er mwyn helpu ynadon i fynd ati'n well i wasanaethu eu cymunedau'n effeithiol. Ni fydd newidiadau ehangach i arweinyddiaeth a hyfforddiant yn dod o fewn cwmpas y newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn a byddent yn cael eu rhoi ar waith yn y tymor canolig i'r tymor hir.

10. Caiff ynadon troseddol presennol eistedd yn y llysoedd teulu neu ieuenctid os ceir awdurdod gan y TAAACau a hyfforddiant ychwanegol, neu gall ynadon wneud cais yn uniongyrchol i ddod yn ynad teulu drwy broses sy'n cyd-fynd â'r system droseddol. Nid ydym yn cynnig newid y systemau hyn, felly dylai'r broses o recriwtio i'r llysoedd teulu ac ieuenctid aros yr un fath. Awgrymwn y byddai ynadon ieuenctid a theulu hefyd yn cael eu neilltuo i fainc, ac o fewn hyn, 'llys cartref', lle byddai disgwyl iddynt eistedd y rhan fwyaf o'r amser. Byddai achosion teulu yn parhau i gael eu dyrannu drwy ardal y panel teulu y mae'r llys cartref yn dod o fewn iddi. Byddai ardaloedd paneli teulu yn aros yr un fath, ac eithrio yn yr ychydig achosion lle mae'r ardaloedd hyn yn cyd-fynd â grwpiau ardaloedd cyfiawnder lleol a fyddai'n uno i ffurfio mainc fwy. Os felly, byddai'r paneli teulu cyfatebol yn uno hefyd. Byddai'r rhan fwyaf o'r

gwaith o arwain ynadon teulu ac ieuenctid yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i Gadeirydd y Fainc, er bod gan Gadeiryddion Paneli Teulu a Phaneli Ieuenctid rywfaint o gyfrifoldeb dros y grwpiau hyn hefyd. Fodd bynnag, ar wahân i ofyn a ddylid ethol ynteu ddethol Cadeiryddion Paneli fel rydym yn ei wneud gyda Chadeiryddion Meinciau, nid ydym yn cynnig newid y rolau hyn.

11. Er bod ynadon yn gwrando ar rai achosion sifil, nid oes trefniant recriwtio, lleoli nac arwain ar wahân ar gyfer gwaith sifil. Trefnir yr holl waith sifil drwy'r system droseddol bresennol, felly byddai'r gwaith hwn yn cael ei drefnu drwy system y fainc.

12. Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas.

# Cyflwyniad

13. Mae'r ymgynghoriad hwn yn croesawu safbwyntiau am elfennau o'r ynadaeth y mae diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn debygol o effeithio arnynt, gan gynnwys recriwtio, lleoli, hyfforddi ac arwain, ac am ein cynigion ar gyfer sut y gellid gwella rhai o'r agweddau hyn ar lywodraethu ynadon ar ôl y diddymu.

14. Bydd yr ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r newidiadau i drefn lywodraethu'r ynadaeth i raddau helaeth. Mae'n bosibl iawn y bydd y cynigion sydd yn y ddogfen hon yn newid gan ddibynnu ar yr ymatebion a gawn.

15. Rydym yn croesawu barn pob aelod o'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr, ond nodwn y bydd y cynigion o ddiddordeb arbennig i'r ynadon eu hunain, ynghyd â'r rhai sydd â diddordeb mawr yn yr ynadaeth. Rydym yn disgwyl y bydd hyn o ddiddordeb arbennig i'r canlynol:
    - Pob ynad yng Nghymru a Lloegr;
    - Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch;
    - Pwyllgor Gweithredol Arweinyddiaeth Ynadon;
    - Cymdeithas yr Ynadon;
    - Pwyllgorau Hyfforddiant, Penodiadau, Awdurdodiadau a Gwerthusiadau (TAAACau);
    - Defnyddwyr y llys, gan gynnwys dioddefwyr a thystion.

16. Yn ogystal â'i gyhoeddi ar consult.justice.gov.uk, bydd copïau o bapurau'r ymgynghoriad yn cael eu hanfon at y canlynol:
    - Cymdeithas yr Ynadon;
    - Y Pwyllgor Gweithredol ar Arweinyddiaeth Ynadon;
    - Gwasanaeth Cynghorwyr Cyfreithiol yr Ynadon a Swyddogion y Llys;
    - Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch (Recriwtio ac Ymddygiad);
    - Cymdeithas yr Arglwydd-Raglawiaid;
    - Swyddfa'r Uchel Siryf;
    - Y Prif Ynad;
    - Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu Ynadon a Theulu;
    - Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin;
    - Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi;
    - Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref Tŷ'r Arglwyddi;
    - Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu;
    - Y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu;
    - Llywodraeth Cymru.

17. Yn ogystal â barn yr ynadaeth, rydym yn gwahodd sylwadau gan ddefnyddwyr eraill y llysoedd, y rhai sy'n gweithio yn y llysoedd ynadon ac unigolion sy'n ystyried ymuno â'r ynadaeth.

18. Nid yw cwmpas yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys trefniadau'r ynadaeth o fewn meysydd datganoledig Cynulliad Gogledd Iwerddon na threfniadau Ynadon Heddwch o fewn meysydd datganoledig Senedd yr Alban.

## Meysydd cyfrifoldeb

19. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn goruchwylio'r broses o recriwtio ynadon drwy Bwyllgorau Cynghori ar Recriwtio Ynadon Heddwch, sy'n gyfrifol am recriwtio a chynefino ynadon dan gyfarwyddyd yr Arglwydd Ganghellor.[2] Mae Pwyllgorau Ymgynghorol, sy'n cynnwys Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio ac Ymddygiad, yn gyrff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol. Mae Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio yn recriwtio ac yn argymell ymgeiswyr i'w penodi i'r ynadaeth i'r Uwch Farnwr Llywyddol.[3] Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar unrhyw newidiadau i recriwtio. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau ar fân newidiadau i Bwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio, yn ogystal â chynigion cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r fainc, sy'n ymwneud â recriwtio a lleoli.

20. Yr Uwch Farnwr Llywyddol, fel y'i dirprwyir gan yr Arglwyddes Brif Ustus, sy'n goruchwylio'r gwaith o leoli ac arwain ynadon ac sy'n penodi pob ynad. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio deall barn ynadon a'r rheini sydd â diddordeb yn yr ynadaeth ynghylch sut gellid cefnogi'r Uwch Farnwr Llywyddol i wneud y penderfyniadau hyn yn effeithiol. Yr Arglwyddes Brif Ustus, ar gyngor yr Uwch Farnwr Llywyddol, fydd yn penderfynu ar y systemau lleoli ac arwain yn y pen draw ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, gan barhau i'w hadolygu.

21. Mae gan yr Arglwyddes Brif Ustus gyfrifoldeb statudol dros hyfforddi ynadon.[4] Y Coleg Barnwrol sy'n darparu'r hyfforddiant hwn ar ei rhan. Mae TAAACau wedi'u sefydlu ledled Cymru a Lloegr dan bwerau a ddarperir yn Rheolau Ynadon Heddwch (2016) i ganfod, ymysg pethau eraill, anghenion hyfforddi lleol ynadon. Mae'r Coleg Barnwrol a'r TAAACau yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i lunio cynlluniau hyfforddi

---

[2] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/39/section/10#commentary-key-3ce7a2c9d04dc3de1f8499d3e89ef247

[3] Mae rhestr lawn o swyddogaethau a rôl Pwyllgorau Ymgynghorol ar gael yn Rhan Un o Gyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor. https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/advisory-committees-justices-peace/

[4] Dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, Adran 7 2(C) (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/4/part/2/crossheading/judiciary-and-courts-in-england-and-wales), yr Arglwyddes Brif Ustus sydd â chyfrifoldeb statudol dros hyfforddi barnwriaeth Cymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol.

blynyddol ar gyfer ynadon sy'n mynd i'r afael ag anghenion cenedlaethol a lleol. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn helpu i ddiffinio'r blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer darpariaeth ddaearyddol ac aelodaeth TAAAC, ac yn rhoi mewnbwn i gwestiynau tymor hwy ynghylch sut mae'r TAAACau yn gweithredu o ran hyfforddiant.

# Pennod 1: Beth yw'r ardaloedd cyfiawnder lleol a pham eu bod yn cael eu diddymu?

## Beth yw'r ardaloedd cyfiawnder lleol?

22. Mae'r 75 o ardaloedd cyfiawnder lleol yn creu ffiniau daearyddol sy'n ymwneud â'r pedair prif elfen sy'n berthnasol i weinyddu llysoedd ynadon: (i) cychwyn a rhestru achosion; (ii) talu a gorfodi dirwyon, gorchmynion dedfryd ohiriedig, gorchmynion cymunedol a gorchmynion adsefydlu ieuenctid; (iii) recriwtio ynadon; a (iv) lleoli ynadon. Maent hefyd yn ymwneud ag arweinyddiaeth a hyfforddiant ynadon ac yn sylfaen gymdeithasol a bugeiliol bwysig i ynadon.

**Yr achos dros newid: pam bod yr ardaloedd cyfiawnder lleol yn cael eu diddymu?**

23. Mae deddfwriaeth eisoes wedi'i phasio i ddiddymu ardaloedd cyfiawnder lleol, felly gofyn mae'r ymgynghoriad hwn am farn ynghylch sut y dylid trefnu'r ynadaeth o ganlyniad i ddiddymu. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol nodi manteision diddymu'r ardaloedd i roi cyd-destun i chi:

24. Gan fod ardaloedd cyfiawnder lleol yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth, nid ydynt yn hyblyg o gwbl. Yn aml iawn, mae angen prosesau cymhleth i weithio o amgylch eu ffiniau cyfreithiol caled pan fydd angen trosglwyddo achosion, ynadon, dirwyon a chosbau o un i'r llall. Mae hyn yn aneffeithlon iawn yn system y llysoedd, gan arwain at oedi wrth ddelio ag achosion yn y pen draw.

25. Ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, bydd yn haws o lawer prosesu dirwyon, gorchmynion cymunedol a chosbau eraill mewn ffordd sy'n addas i'r achos unigol. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i adeiladu system TG newydd heb yr angen i ddarparu ar gyfer ardaloedd cyfiawnder lleol. Dylai'r system hon symleiddio gweithdrefnau'r llys, rhyddhau adnoddau a chreu darlun cenedlaethol o droseddwyr.

*Achosion ac ynadon*

26. Mae pob ynad yn gwneud cais i ardal cyfiawnder lleol ac yn cael ei neilltuo iddi, er y gellir eu dyrannu i lysoedd y tu allan i'w hardal ar gyfer rhai eisteddiadau.[5] Mae hi eisoes yn bosibl symud rhestrau achosion rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol os oes angen grwpio achosion tebyg gyda'i gilydd mewn un llys, er enghraifft os oes

[5] Yn ôl Adran 10(2) o Ddeddf Llysoedd 2003, caiff ynadon eu neilltuo i un neu fwy o ardaloedd cyfiawnder lleol. Fodd bynnag, mae gan yr Arglwyddes Brif Ustus bwerau i symud ynadon i weithredu mewn ardal cyfiawnder lleol arall, dan Adran 10 (3) o Ddeddf Llysoedd 2003.

arbenigedd perthnasol yno.[6] Fodd bynnag, pan fydd diffynnydd yn byw mewn ardal cyfiawnder lleol wahanol i'r un lle cyflawnwyd trosedd, mae protocol cymhleth sy'n cymryd llawer o amser i drosglwyddo'r achos (a'r ynad sy'n eistedd) rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol er mwyn i'r diffynnydd allu dod i lys sy'n nes at ei gyfeiriad.

27. Byddai diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn golygu y gallai staff y llys drosglwyddo achosion yn fwy hyblyg a hwylus rhwng llysoedd ynadon i ymateb i'r galw ac i ffactorau eraill, gan gynnwys hwylustod i ddioddefwyr a thystion, ac i ddiffynyddion sydd wedi symud i fyw.

28. Byddai'n haws delio â diffynyddion hefyd ar gyfer troseddau lluosog neu dorri gorchmynion llys (neu'r ddau) o sawl ardal cyfiawnder lleol mewn un gwrandawiad, heb yr angen am brotocol cymhleth. Bydd diddymu ardaloedd cyfiawnder lleol hefyd yn lleihau'r angen i'r heddlu, gwasanaethau hebrwng i'r ddalfa ac asiantau gorfodi gludo diffynyddion yn bell oddi wrth ardaloedd cyfiawnder lleol eraill ar gyfer materion gwarantau.

*Dirwyon*

29. Ar hyn o bryd, rhaid delio â'r gwaith o gasglu a gorfodi'r cosbau ariannol a bennir gan lysoedd ynadon yn yr ardal cyfiawnder lleol lle rhoddir y gosb. Os bydd troseddwr yn symud, yn cyflawni sawl trosedd mewn ardaloedd gwahanol neu'n dymuno talu ei gosb mewn lleoliad gwahanol, mae'n anodd iawn symud cosbau o'r fath ar draws ardaloedd cyfiawnder lleol. Er enghraifft, os bydd diffynnydd yn cael ei arestio am drosedd ym Manceinion, a bod gan y diffynnydd hwnnw warantau neu ddirwyon heb eu talu yng Ngwlad yr Haf, rhaid i lys Manceinion brosesu gorchymyn 'trosglwyddo dirwy' (TFO) i ddelio â chosbau Gwlad yr Haf.

30. Mae prosesu gorchmynion o'r fath yn gymhleth ac yn aneffeithlon. Mae'n cymryd tua 30 munud i brosesu TFO. Gan fod tua 70,000 TFO yn cael eu prosesu bob blwyddyn, gyda'i gilydd mae'r rhain yn cymryd tua 35,000 awr o amser staff i'w prosesu. Mae hyn yn golygu costau uchel ac yn achosi oedi wrth weinyddu'r achos dan sylw. Bydd dileu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn galluogi GLITEF i adeiladu system TG newydd a fyddai'n cael gwared â'r angen am y gorchmynion hyn, er mwyn gallu prosesu dirwyon yn awtomatig yn unrhyw le.

31. Bydd dileu ffiniau'r ardaloedd hefyd yn ei gwneud yn haws i dalu dirwyon.

[6] Yn ôl Adran 30(4)-(5) o Ddeddf Llysoedd 2003, gellir rhestru achosion yn yr ardal cyfiawnder lleol a) lle honnir bod y trosedd wedi'i gyflawni; b) lle mae'r sawl a gyhuddir o'r trosedd yn byw; c) lle mae'r tystion, neu fwyafrif y tystion, yn byw; neu d) lle mae achosion eraill sy'n codi materion tebyg yn cael sylw. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y gellir symud achosion rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol lle bo angen, ac mae hynny'n digwydd.

*Gorchmynion cymunedol, gan gynnwys gorchmynion adsefydlu ieuenctid, a gorchmynion dedfryd ohiriedig*

32. Yn yr un modd, pan roddir gorchymyn cymunedol (gan gynnwys gorchymyn adsefydlu ieuenctid) neu orchymyn dedfryd ohiriedig i ddiffynnydd, a'i fod yn symud i gyfeiriad mewn ardal cyfiawnder lleol wahanol, ar hyn o bryd mae trefn ddianghenraid o gymhleth i 'drosglwyddo' rheolaeth y gorchymyn i'w lys agosaf, a hynny ar ben y broses o drosglwyddo'r achos rhwng timau prawf. Mae'r drefn hon yn cynnwys cais neu hysbysiad i'r llys yn yr ardal cyfiawnder lleol wreiddiol i newid yr ardal sydd yn y gorchymyn. Mae prosesu'r trosglwyddiadau hyn yn golygu cost debyg i gost prosesu TFO, sy'n sylweddol.

33. Bydd cael gwared â'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn galluogi GLITEF i adeiladu system TG well a allai drosglwyddo gorchmynion o'r fath rhwng ardaloedd gan ddefnyddio proses symlach. Byddai hyn felly'n arbed costau ac oedi.

*Edrych ar droseddwyr ar lefel genedlaethol*

34. Bydd dileu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn galluogi GLITEF i adeiladu system TG newydd sy'n dangos gwybodaeth am ddirwyon a hanes talu troseddwyr ledled y wlad. Bydd hyn yn helpu'r farnwriaeth i ddeall hanes diffynnydd fel y gellir sicrhau cyfiawnder mewn ffordd decach a gwneud penderfyniadau dedfrydu'n gynt.

35. Byddai hyn hefyd yn golygu bod modd prosesu dirwyon yn gynt. Gallai staff y llys ddelio'n fwy effeithlon â throseddwyr sydd heb dalu dirwy neu gyflawni gorchymyn cymunedol mewn ardal wahanol. Byddai'r enillion effeithlonrwydd hyn yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwell ac yn helpu i sicrhau y gellid defnyddio adnoddau staff yn fwy effeithiol.

## Beth fydd canlyniadau ehangach diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol ar gyfer recriwtio, lleoli, arwain a hyfforddi ynadon?

36. Mae gweddill y ddogfen hon yn trin a thrafod sut y bydd diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn effeithio ar elfennau o'r ynadaeth, ac yn gofyn am farn ynghylch sut y gellid diwygio'r rhain ar ôl y broses diddymu:

37. Mae **Pennod 2** yn gofyn am safbwyntiau ynghylch pa strwythur y dylid ei ddefnyddio i grwpio llysoedd ynadon ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, ac mae **Penodau 3 a 4** yn edrych ar sut y byddai'r newidiadau hyn yn effeithio ar recriwtio a lleoli ynadon, yn y drefn honno.

38. Gan nad oes dwywaith y bydd diddymu ardaloedd cyfiawnder lleol yn arwain at rai newidiadau i arweinyddiaeth, hyfforddiant a TAAACau, mae **Penodau 5 a 6** yn trin a

thrafod sut mae'r arweinyddiaeth a TAAACau yn gweithio ar hyn o bryd. Maent yn gofyn a oes angen newidiadau'n fwy eang i sicrhau bod modd cefnogi ynadon yn y ffordd orau bosibl i wasanaethu eu cymunedau.

39. Mae'r tablau yn atodiadau D i G yn crynhoi'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y penodau a restrir uchod. Maent hefyd yn amlinellu'r gwahaniaethau rhwng y system bresennol ar gyfer ardaloedd cyfiawnder lleol a'r system arfaethedig ar gyfer y fainc.

**C1: Ydych chi'n cytuno mai dyma elfennau ehangach y system ynadon y mae diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn debygol o effeithio arnynt: recriwtio; lleoli; arwain; a hyfforddi? Os ydych chi'n meddwl bod hyn yn debygol o effeithio ar elfennau eraill, cofiwch eu rhestru.**

# Pennod 2 – Strwythur newydd ar gyfer grwpio llysoedd ynadon

## Y system bresennol

40. Ar hyn o bryd, mae'r 75 ardal cyfiawnder lleol yn cynnwys rhwng un a phum llys ynadon mewn un ardal ddaearyddol. Gan fwyaf, mae pob sir yn Lloegr naill ai'n ffurfio un ardal cyfiawnder lleol neu'n cael ei rhannu'n nifer ohonynt. Yng Nghymru, mae cyfansoddiad ardaloedd cyfiawnder lleol yn fwy amrywiol, gyda 13 ardal cyfiawnder lleol yn ffurfio ar draws amrywiaeth o fwrdeistrefi, siroedd a rhanbarthau. Mae pob ynad yn cael ei neilltuo i ardal cyfiawnder lleol, er y gall pob ynad weithredu mewn unrhyw ardal cyfiawnder lleol, gyda chaniatâd yr Arglwyddes Brif Ustus.

41. Yn Atodiad A ceir map cyfredol o'r ardaloedd cyfiawnder lleol, fel y maent ar hyn o bryd.

## Grwpio ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol

42. Rydym yn cynnig grwpio llysoedd ynadon yn 58 o 'feinciau'. Byddai'r meinciau hyn ar gyfer dibenion gweinyddol, ac yn wahanol i ardaloedd cyfiawnder lleol, ni fyddent yn cael eu diffinio mewn deddfwriaeth.

43. Rydym yn cynnig defnyddio'r term 'meinciau' i ddisgrifio'r grwpiau oherwydd ei fod eisoes yn derm cyfarwydd i ynadon – 'mainc' yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio grŵp o ynadon mewn ardal cyfiawnder lleol ar hyn o bryd.

44. Rydym yn cynnig defnyddio ffiniau ardaloedd cyfiawnder troseddol i greu ffiniau'r rhan fwyaf o feinciau ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, ac eithrio mewn achosion lle byddent yn rhy fawr. Bryd hynny, bydd ffiniau'r ardaloedd presennol yn cael eu defnyddio. Mae 24 ardal cyfiawnder lleol yr un fath ag ardaloedd cyfiawnder troseddol yn barod, felly yn yr achosion hyn byddai ffiniau'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol hefyd yn cael eu defnyddio i ffurfio meinciau. Yn y rhan fwyaf o achosion eraill lle defnyddir ardaloedd cyfiawnder troseddol, byddai hyn yn bennaf yn golygu uno dau neu fwy o grwpiau llysoedd ardaloedd cyfiawnder lleol gyda'i gilydd.

45. Mae ardaloedd cyfiawnder troseddol yn seiliedig ar yr ardaloedd daearyddol a ddefnyddir i strwythuro heddluoedd Cymru a Lloegr, ac maent yn rhannu eu ffiniau â siroedd fel arfer. Ar gyfer y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr, mae busnes craidd y llysoedd ynadon troseddol yn cynnwys erlyniadau a gychwynnir gan yr heddluoedd,

felly maent yn cyd-fynd yn naturiol â gwaith y llysoedd ynadon. Mae ardaloedd cyfiawnder troseddol hefyd yn cyd-fynd â'r cylchdeithiau barnwrol, felly byddai eu defnyddio yn arwain at gysondeb o ran llywodraethu ar draws system y llysoedd troseddol.[7]

46. Rydym yn gofyn am farn ar gyfansoddiad arfaethedig y meinciau a nodir yn y tabl isod, gan gynnwys y rhesymeg dros seilio pob mainc naill ai ar ardaloedd cyfiawnder troseddol neu ardaloedd cyfiawnder lleol lle teimlwn y byddai ardal cyfiawnder troseddol yn rhy fawr i weithredu fel mainc unigol. Mae gwybodaeth am y meinciau arfaethedig, sut y byddai'r rhain yn cymharu â'r ardaloedd cyfiawnder lleol sy'n bodoli ar hyn o bryd, a'r llysoedd y byddent yn eu cynnwys, i'w gweld yn y mapiau yn Atodiad A a'r tablau yn Atodiadau B ac C.

47. Nodir y goblygiadau ar gyfer llysoedd teulu a llysoedd ieuenctid ym mharagraffau **Error! Reference source not found.–Error! Reference source not found.**.

7 Dyma'r cylchdeithiau barnwrol: Gogledd Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Cymru, Canolbarth Lloegr, Gorllewin Lloegr a De-ddwyrain Lloegr. Rhennir Cylchdaith De-ddwyrain Lloegr yn ddwy ardal weithredol at ddibenion llysoedd ynadon, sef Llundain a De-ddwyrain Lloegr (yn yr un modd â rhanbarthau GLlTEF a Chymru). Byddwn yn defnyddio'r term 'cylchdeithiau' i gyfeirio at y cylchdeithiau, gan gynnwys Llundain a De-ddwyrain Lloegr fel cylchdeithiau ar wahân. Gweler yr eirfa am ragor o fanylion.

**Crynodeb o ba grwpiau llysoedd ardaloedd cyfiawnder lleol fydd yn newid a pha rai fydd yn aros yr un fath o dan gynigion y fainc**

| Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Presennol | Ardal neu Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol | Unrhyw newidiadau arfaethedig i grwpiau ardaloedd cyfiawnder lleol i ffurfio meinciau | Rhesymau dros ffurfio'r meinciau arfaethedig fel hyn |
|---|---|---|---|
| Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt, Swydd Gaer, Cleveland, Dorset, Durham, Swydd Gaerloyw, Gwent, Glannau Humber, Swydd Gaerhirfryn, Swydd Lincoln, Glannau Mersi, Norfolk, Swydd Northampton, Gogledd Swydd Efrog, Swydd Nottingham, De Swydd Efrog, Swydd Stafford, Suffolk, Surrey, Wiltshire | Mae'r ardaloedd cyfiawnder troseddol yr un fath â grwpiau'r ardaloedd cyfiawnder lleol. | Byddai'r 24 grŵp mainc yn edrych yr un fath â'r rhai a ddefnyddir mewn ardaloedd cyfiawnder lleol ac ardaloedd cyfiawnder troseddol. | Mae'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn cyd-fynd â'r ardaloedd cyfiawnder troseddol felly nid oes rheswm dros newid y grwpiau. |
| Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Llundain (Canol Llundain, Dwyrain Llundain, Gogledd-ddwyrain Llundain, Gogledd Llundain, Gogledd-orllewin Llundain, De-ddwyrain Llundain, De Llundain, De-orllewin Llundain, Gorllewin Llundain) | Ardal Fetropolitan Llundain | Byddai naw mainc Llundain yn defnyddio'r un ffiniau ag ardaloedd cyfiawnder lleol presennol Llundain. | Byddai natur gymhleth a dwysedd poblogaeth uchel ardal yr Heddlu Metropolitan yn golygu na fyddai'n ymarferol ffurfio un fainc fawr yn Llundain. |
| Yr ardaloedd cyfiawnder lleol sy'n ffurfio ardal cyfiawnder troseddol Dyfed Powys (Ceredigion, Llanelli, Canolbarth Cymru (Ardal Dyfed Powys), Sir Drefaldwyn a Sir Benfro).<br><br>Yr ardaloedd cyfiawnder lleol sy'n ffurfio ardal cyfiawnder troseddol Hampshire | Dyfed-Powys<br><br>Hampshire | Byddai naw mainc Hampshire a Dyfed Powys yn defnyddio'r un ffiniau â'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol. | Ni fyddai'n ymarferol creu meinciau yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol mawr iawn ardaloedd cyfiawnder troseddol Dyfed Powys a Hampshire. Byddai'r teithiau hir rhwng llysoedd yn golygu mai ychydig iawn o ynadon fyddai'n debygol o eistedd mewn |

| Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Presennol | Ardal neu Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol | Unrhyw newidiadau arfaethedig i grwpiau ardaloedd cyfiawnder lleol i ffurfio meinciau | Rhesymau dros ffurfio'r meinciau arfaethedig fel hyn |
|---|---|---|---|
| (Gorllewin Hampshire, Dwyrain Hampshire, Gogledd Hampshire, Ynys Wyth). | | | llysoedd yn yr ardal cyfiawnder troseddol y tu hwnt i'r rhai sy'n ffurfio eu hardal cyfiawnder lleol bresennol. Felly, byddai'n fwy ymarferol cynnal y grwpiau llys presennol a ddefnyddir mewn ardaloedd cyfiawnder lleol. |
| Cernyw, Gogledd a Dwyrain Dyfnaint, De a Gorllewin Dyfnaint. | Dyfnaint a Chernyw | Mainc Dyfnaint a Mainc Cernyw.<br><br>Byddai grwpiau llysoedd ardal cyfiawnder lleol Dyfnaint yn uno i ffurfio Mainc Dyfnaint. Byddai ffiniau ardal cyfiawnder lleol Cernyw yr un fath â ffiniau Mainc Cernyw. | Yn yr un modd â Hampshire a Dyfed Powys, byddai ardal cyfiawnder troseddol Dyfnaint a Chernyw yn rhy fawr yn ddaearyddol i gyfuno Dyfnaint a Chernyw. |
| Coventry a Swydd Warwick | Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Warwick | Byddai Coventry yn rhan o Fainc Gorllewin Canolbarth Lloegr, a byddai llysoedd Swydd Warwick yn ffurfio Mainc Swydd Warwick. | Mae'r ardal cyfiawnder lleol hon wedi'i rhannu ar draws dwy ardal cyfiawnder troseddol. Mae Coventry yn eistedd yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, ac mae'r llysoedd eraill yn eistedd yn Swydd Warwick. Byddem yn awgrymu rhannu Coventry oddi wrth y llysoedd eraill i gyd-fynd ag ardaloedd cyfiawnder troseddol fel man cychwyn |

| **Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Presennol** | **Ardal neu Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol** | **Unrhyw newidiadau arfaethedig i grwpiau ardaloedd cyfiawnder lleol i ffurfio meinciau** | **Rhesymau dros ffurfio’r meinciau arfaethedig fel hyn** |
|---|---|---|---|
| | | | ar gyfer trafodaeth. Rydym yn croesawu barn y rheini sydd â dealltwriaeth o’r ardal ynghylch beth fyddai’n gweithio orau. |
| Canolbarth Cymru | Dyfed Powys a De Cymru | Byddai Llandrindod yn ffurfio mainc ei hun, sef Canolbarth Cymru. Byddai Merthyr Tudful yn eistedd ym Mainc De Cymru. | Mae llysoedd Mainc Canolbarth Cymru yn eistedd ar draws dwy ardal cyfiawnder troseddol: Llandrindod yn ardal Dyfed Powys a Merthyr Tudful yn ardal De Cymru. Gan fod Dyfed Powys yn rhy fawr i ffurfio ardal cyfiawnder troseddol (gweler uchod), byddai Llandrindod yn ffurfio ei fainc ei hun, sef Canolbarth Cymru. Byddai Merthyr Tudful yn eistedd ym Mainc De Cymru i gyd-fynd â’r ardal cyfiawnder troseddol y mae’n rhan ohoni. Yn yr un modd â Coventry, dim ond man cychwyn ar gyfer trafodaeth yw hwn, ac rydym yn croesawu barn unrhyw un sy’n deall yr ardaloedd ynghylch beth fyddai’n gweithio orau. |

| Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Presennol | Ardal neu Ardaloedd Cyfiawnder Troseddol | Unrhyw newidiadau arfaethedig i grwpiau ardaloedd cyfiawnder lleol i ffurfio meinciau | Rhesymau dros ffurfio’r meinciau arfaethedig fel hyn |
|---|---|---|---|
| Pob ardal cyfiawnder lleol arall<br><br>(Berkshire, Swydd Buckingham a Swydd Rydychen; Canol a Gorllewin Swydd Hertford a Gogledd a Dwyrain Swydd Hertford; Canol Caint, Dwyrain Caint a Gogledd Caint; Gogledd Essex a De Essex; Sussex (Canol) a Sussex (Dwyrain); Swydd Henffordd, Swydd Amwythig a Swydd Gaerwrangon; Swydd Gaerlŷr a Rutland; Gogledd Swydd Derby a De Swydd Derby; Birmingham a Solihull a’r Black Country; Gogledd Northumbria a De Northumbria; Bolton, Manceinion a Salford, Stockport, Tameside a Wigan a Leigh; Gogledd a Gorllewin Cumbria a De Cumbria; Gogledd Canol Cymru, Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Cymru; Caerdydd ac Abertawe | Pob ardal cyfiawnder troseddol arall | Byddai grwpiau ardaloedd cyfiawnder lleol yn uno i ffurfio mainc sy’n cyd-fynd ag ardal cyfiawnder troseddol.<br><br>(Byddai 14 o feinciau’n cael eu ffurfio: Dyffryn Tafwys, Swydd Hertford, Caint, Essex, Sussex, Gorllewin Mercia, Caerlŷr, Swydd Derby, Gorllewin Canolbarth Lloegr; Northumbria, Manceinion Fwyaf, Cumbria, Gogledd Cymru a De Cymru) | Yn y rhan fwyaf o achosion, rhennir ardal cyfiawnder troseddol yn ddwy neu dair ardal cyfiawnder lleol, er bod y ffiniau allanol yn dilyn ffiniau sirol yn bennaf. Byddai’r grwpiau hyn yn uno i gyfateb i’r ardal cyfiawnder troseddol berthnasol.<br><br>Er enghraifft, byddai’r llysoedd yn ardaloedd cyfiawnder lleol Gogledd Caint, Dwyrain Caint a Chanol Caint yn uno i ffurfio Mainc Caint; a byddai’r llysoedd yng Ngogledd Northumbria a De Northumbria yn ffurfio Mainc Northumbria. |

48. Gan y byddai rhai o'r meinciau a gynigir yn fwy na'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol, rydym am wneud yn siŵr na fyddai'r newidiadau hyn yn newid y profiad o eistedd fel ynad o ddydd i ddydd yn sylweddol. Rydym am sicrhau y byddai ynadon yn parhau i gael lleoliad cyfarwydd yn eu hardal leol ac nad ydynt yn eistedd yn bell oddi wrtho fel mater o drefn. Byddai hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal yr egwyddor hollbwysig o wasanaethu cyfiawnder lleol a chymunedau, a'n bod yn cynnal colegoldeb a chysylltiadau gydag ynadon eraill yn lleol. Mae Pennod 4 yn amlinellu cynigion manylach ar gyfer lleoli ynadon o fewn y strwythur hwn.

**C2: Ydych chi'n cytuno y dylid grwpio llysoedd ynadon yn feinciau a fyddai naill ai: yn cyfateb i ardaloedd cyfiawnder troseddol; neu, yn defnyddio ffiniau'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol, os yw'r ardal cyfiawnder lleol yn rhy fawr i weithredu fel un fainc? Os nad ydych chi, sut ydych chi'n credu y dylem ffurfio meinciau? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C3: Ydych chi'n cytuno â'r 58 o feinciau a gynigir yn Atodiad B? Rhowch resymau am eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno, rhowch fanylion unrhyw faterion sy'n berthnasol i fainc benodol, ac awgrymwch unrhyw opsiynau eraill sydd gennych.**

**Llysoedd teulu a llysoedd ieuenctid**

49. Mae llysoedd ieuenctid ynghlwm wrth rai llysoedd ynadon, ond nid pob un, ac felly fe'u trefnir yn ôl ardal cyfiawnder lleol. Byddai'r cynigion uchod ar gyfer y fainc yn berthnasol i ynadon ieuenctid yn ogystal ag ynadon sy'n ymdrin ag achosion troseddol oedolion. Mae rhagor o fanylion am yr effaith ar leoli ynadon ieuenctid i'w gweld ym mharagraffau **Error! Reference source not found.–Error! Reference source not found.** ym Mhennod 4.

50. Defnyddir ardaloedd cyfiawnder lleol hefyd yn y system deulu, gan fod ynadon teulu yn cael eu neilltuo i ardal cyfiawnder lleol ar hyn o bryd pan fyddant yn cael eu penodi. Rydym ni'n cynnig neilltuo ynadon teulu i fainc pan gânt eu penodi. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae eu dyraniad achosion parhaus yn cael ei oruchwylio gan ardaloedd paneli teulu. Rydym wedi ystyried yr effeithiau ar ddyrannu achosion teulu a'r newidiadau dilynol i ardaloedd paneli teulu ym mharagraffau **Error! Reference source not found.–Error! Reference source not found.** ym Mhennod 4.

**C4: Ydych chi'n meddwl y byddai unrhyw un o'r cynigion yn y papur hwn yn effeithio ar systemau'r llysoedd teulu neu ieuenctid mewn ffyrdd ar wahân i'r rhai a nodwyd? Rhowch resymau am eich ateb.**

# Pennod 3 – Pwyllgorau recriwtio a chynghori

## Y system recriwtio bresennol

51. Ar hyn o bryd, mae swyddi gwag ar gyfer ynadon yn cael eu hysbysebu gan ardaloedd cyfiawnder lleol, a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu neilltuo i'r ardal cyfiawnder lleol honno.[8] Fodd bynnag, un o 23 Pwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Recriwtio Ynadon Heddwch sy'n adolygu ac yn cyfweld ynadon. Mae pob un o'r pwyllgorau hyn yn gyfrifol am un neu fwy o'r 75 ardal cyfiawnder lleol ledled Cymru a Lloegr.[9]

52. Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn cyflwyno argymhellion ar gyfer penodi i'r Uwch Farnwr Llywyddol. Yna bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi'n ynad cenedlaethol, a elwir hefyd yn aelod o gomisiwn heddwch Cymru a Lloegr. Ar ôl cael ei benodi, bydd yr ynad wedyn yn cael ei neilltuo'n ôl i'r ardal cyfiawnder lleol y cyflwynodd gais iddi.

## Recriwtio ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol

53. Dim ond newid technegol y disgwyliwn ei wneud i'r broses recriwtio: byddai ynadon yn gwneud cais am sedd wag mewn mainc yn hytrach nag mewn ardal cyfiawnder lleol, a byddent wedyn yn cael eu neilltuo i'r fainc honno, yn hytrach nag i'r ardal cyfiawnder lleol, ar ôl cael eu penodi. Er mai'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio sy'n cynnal y cyfweliadau, fel y nodir isod, gweinyddir y broses ymgeisio gan ddefnyddio system genedlaethol, a fyddai'n aros yr un fath. Gan ein bod wedi diwygio'r broses recriwtio a'r system ddigidol yn ddiweddar iawn, nid ydym yn bwriadu gwneud rhagor o newidiadau mawr i'r broses recriwtio drwy'r ymgynghoriad hwn.

[8] Adran 10(2), Deddf Llysoedd 2003, https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/39/section/10

[9] Mae Pwyllgorau Ymgynghorol yn amrywio o ran faint o'r 75 ardal cyfiawnder lleol y maent yn recriwtio iddynt, yn ogystal â'r ardal ddaearyddol a wasanaethir. Er enghraifft, mae Pwyllgor Ymgynghorol Llundain yn gwasanaethu naw ardal cyfiawnder lleol, ac mae Pwyllgor Ymgynghorol Cumbria a Swydd Gaerhirfryn yn cynnwys tair ardal cyfiawnder lleol (Gogledd a Gorllewin Cumbria, De Cumbria a Swydd Gaerhirfryn) ar draws ardal ffisegol sydd dipyn yn fwy.

## Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol

54. Byddem yn disgwyl i'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio oruchwylio'r un llysoedd ag y maent yn eu goruchwylio ar hyn o bryd, felly ni ddylai nifer y swyddi gwag i ynadon sy'n codi ym mhob un newid o ganlyniad i ddiddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol. Byddai'r llysoedd hyn yn cael eu grwpio'n feinciau, neu ba bynnag strwythur newydd a roddwn ar waith ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol. Felly, byddai angen gwneud newid technegol i ddileu cyfeiriadau mewn deddfwriaeth sy'n cysylltu Pwyllgorau ac ardaloedd cyfiawnder lleol. Ar wahân i'r newid technegol hwn, nid ydym yn disgwyl unrhyw newidiadau sylweddol o ran sut mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio yn gweithio.

55. Nid ydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch swyddogaeth ehangach Pwyllgorau Ymgynghorol drwy'r ymgynghoriad hwn, gan nad yw strwythur Pwyllgorau Ymgynghorol yn uniongyrchol gysylltiedig ag ardaloedd cyfiawnder lleol, ac mae Pwyllgorau Ymgynghorol yn gyrff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol, sy'n golygu bod eu cylch gwaith a'u strwythur y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

**C5: Ydych chi'n cytuno mai dim ond mân newidiadau y byddai angen eu gwneud i'r broses recriwtio ynadon o ganlyniad i ddiddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, lle mai'r fainc fyddai'n ymdrin â swyddi gwag a neilltuo ynadon yn hytrach nag ardal cyfiawnder lleol? Ydych chi'n meddwl ei bod yn debygol y bydd rhagor o effeithiau ar y system recriwtio nad ydym ni wedi'u hystyried? Rhowch resymau am eich ateb.**

## Llysoedd teulu a llysoedd ieuenctid

56. Mae'r broses o recriwtio i'r llys teulu yn digwydd ar wahân i'r broses o recriwtio i'r llys troseddol, er bod rhai ynadon troseddol yn cael eu penodi drwy'r TAAACau i eistedd mewn llysoedd teulu ar ôl cwblhau hyfforddiant ychwanegol.

57. Mae eisteddiadau yn y llys ieuenctid yn cael eu cynnal gan ynadon troseddol sydd wedi cael hyfforddiant penodol. Fe'u penodir drwy'r TAAACau, sy'n cael eu hystyried ym Mhennod 5.

58. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw newidiadau i'r ffordd y penodir ynadon teulu neu ynadon ieuenctid.

# Pennod 4 – Lleoli

## Y broses leoli bresennol

59. Ar hyn o bryd, mae ymgeiswyr i'r ynadaeth yn gwneud cais i ardal cyfiawnder lleol benodol. Ar ôl cael eu penodi ar lefel genedlaethol, bydd ynadon yn cael eu neilltuo i un ardal cyfiawnder lleol, neu fwy nag un o bryd i'w gilydd. Bydd ynadon troseddol wedyn yn cael eu dyrannu i achosion mewn unrhyw lys yn eu hardal cyfiawnder lleol, a gyda'u cytundeb nhw, gellir eu dyrannu hefyd i lysoedd y tu allan i'r ardal honno. Rydym yn defnyddio'r term 'lleoli' drwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at y neilltuo a'r dyrannu parhaus i'r llysoedd.

60. Yn ymarferol, mae ynadon yn cael eu dyrannu'n bennaf i un prif lys, er nad yw hyn yn rheol swyddogol. Ceir llawer o enghreifftiau o ynadon yn eistedd fel mater o drefn mewn ardaloedd cyfiawnder lleol eraill, naill ai oherwydd bod mathau arbennig o achosion wedi'u rhestru mewn ardaloedd llys penodol er mwyn bod yn effeithlon; oherwydd lleoedd gwag yn rota'r ynadon; neu i gefnogi eu dysg a'u datblygiad, er enghraifft drwy raglenni mentora neu arfarnu.

**Y system ieuenctid**

61. Mae lleoli ynadon ar gyfer y system ieuenctid yn debyg iawn i'r system droseddol i oedolion, gan fod llysoedd ieuenctid yn gysylltiedig â llysoedd ynadon troseddol. Ar ôl cael eu cymeradwyo i eistedd fel ynad ieuenctid, bydd ynadon yn cael eu neilltuo i ardal cyfiawnder lleol, ac yn cael eu dyrannu i brif leoliad lle maen nhw'n eistedd y rhan fwyaf o'r amser. Gall y prif leoliad hwn fod yn wahanol i leoliad eu canolfan droseddol i oedolion, gan nad oes gan bob llys ynadon lys ieuenctid ynghlwm wrtho. Fel arfer, bydd eu hardal cyfiawnder lleol yr un fath â'r un y maent wedi'u neilltuo iddi ar gyfer gwaith troseddol oedolion, ond o bryd i'w gilydd bydd mewn ardal cyfiawnder lleol gyfagos os yw'r llys ieuenctid agosaf dros ffin ardal cyfiawnder lleol. Yn yr un modd â gwaith troseddol oedolion, maen nhw'n cael eu dyrannu i achosion ar draws eu hardal cyfiawnder lleol, ac weithiau y tu allan iddi os yw pawb yn gytûn.

**Y system deulu**

62. Mae ynadon teulu hefyd yn cael eu neilltuo i ardal cyfiawnder lleol. Os ydynt eisoes yn ynad troseddol, dyma'r un ardal cyfiawnder lleol y maent wedi'u neilltuo iddi ar gyfer eu gwaith troseddol. Fodd bynnag, trefnir eu dyraniad achosion drwy ardaloedd paneli teulu. Mewn rhai achosion, mae ardaloedd paneli teulu yr un fath ag ardaloedd cyfiawnder lleol. Mewn achosion eraill, maent yn cyd-fynd ag ardaloedd y Barnwr Teulu Dynodedig yn cynnwys dwy ardal cyfiawnder lleol neu fwy, ac mewn achosion eraill maent yn cyd-fynd ag ardaloedd y Barnwr Teulu Dynodedig, sy'n defnyddio

ffiniau gwahanol eto. Lle mae ardal panel teulu yn fwy nag ardal cyfiawnder lleol yr ynadon, gofynnir iddynt a ydynt yn fodlon eistedd ym mhob llys ar draws ardal panel teulu ynteu a ydynt ond yn dymuno eistedd yn y llysoedd o fewn yr ardal cyfiawnder lleol.

## Y broses leoli arfaethedig

63. Byddai defnyddio meinciau i grwpio llysoedd ynadon gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir mewn ardaloedd cyfiawnder lleol, neu sy'n agos atynt, yn sicrhau na ddylai profiad ynadon o ddydd i ddydd newid yn sylweddol. Byddai ynadon yn parhau i gael eu grwpio gyda chydweithwyr y maent yn gyfarwydd â nhw er mwyn helpu i hybu lles a chefnogaeth gan gymheiriaid.

64. O dan y strwythur hwn, rydym wedi ceisio datblygu cynigion lleoli sy'n debyg iawn i'r arferion presennol, gan fod yn ddigon hyblyg i gefnogi anghenion y llys ac anghenion ynadon. Rydym yn cynnig, yn dilyn penodiad llwyddiannus, y byddai ynadon yn cael eu neilltuo i 'lys cartref'. Byddent yn cael eu dyrannu i hwn ar gyfer rhwng 60% ac 80% o'u heisteddiadau. Mae'n debyg mai hwn fyddai'r llys lle mae ynadon yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o'u heisteddiadau ar hyn o bryd, ac yn unol ag egwyddor cyfiawnder lleol ac ynadon yn gwasanaethu eu cymunedau eu hunain, y llys agosaf at eu cartref neu'u gweithle. Byddai llys cartref yr ynadon yn rhan o'r fainc ehangach a ddisgrifir ym Mhennod 2. Byddent yn dod i gysylltiad ag ynadon eraill a leolir i'w llys cartref y rhan fwyaf o'r amser, ond byddent hefyd yn cael y budd o gael cyswllt ag ynadon ar draws y fainc i rannu profiadau a cholegoldeb.

65. Yna, byddai disgwyl i ynadon dreulio'r 20% i 40% sy'n weddill o'r eisteddiadau mewn llysoedd eraill yn ardal eu mainc sydd o fewn amser teithio rhesymol i'w cyfeiriad.

66. Rydym yn cynnig na fyddai taith resymol yn fwy na 90 munud bob ffordd, mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Byddai eithriadau i'r rheol hon yn cael eu hystyried yn lleol, er enghraifft, i ddarparu ar gyfer yr angen am addasiadau rhesymol neu ar gyfer ardaloedd sydd â theithiau sy'n adnabyddus am fod yn anodd, fel rhai sy'n cynnwys traffig trwm yn rheolaidd. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ni fyddem yn disgwyl i ynadon deithio am fwy na 90 munud fel mater o drefn oherwydd gallai teithiau hirach effeithio ar eu bywydau cartref, ac ar eu lles yn sgil hynny. Gellid ystyried bod taith hirach yn briodol ar achlysuron prin; er enghraifft, os oes prinder ynadon mewn llys sy'n bellach i ffwrdd a bod yr ynadon yn gwirfoddoli i deithio y tu hwnt i 90 munud i lenwi'r bwlch. Fodd bynnag, byddem bob amser yn blaenoriaethu gofyn i ynadon sy'n byw o fewn 90 munud i'r llys dan sylw cyn gofyn i'r rhai sydd ymhellach i ffwrdd lenwi bylchau. Wrth wneud hynny, byddem yn gwarchod lles ynadon ac yn cynnal egwyddor cyfiawnder lleol.

67. Byddai'r system hon yn edrych yn debyg iawn i'r system bresennol. Yn gyffredinol, mae ynadon yn eistedd mewn un lleoliad ar gyfer y rhan fwyaf o'u heisteddiadau, felly byddai'r canllawiau ar gyfer canrannau yn codeiddio'r arfer presennol i raddau helaeth. Mae ychwanegu'r cap 90 munud ar deithiau yn mynd gam ymhellach na'r canllawiau presennol, sydd ond yn nodi bod disgwyl i ynadon eistedd yn unrhyw le yn eu hardal cyfiawnder lleol. Unwaith eto, mater o godeiddio yw hyn i raddau helaeth gan fod arweinwyr meinciau fel arfer yn trafod trefniadau eistedd gydag ynadon i sicrhau nad oes disgwyl iddynt wneud siwrneiau afresymol.

**C6: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon gael 'llys cartref', lle byddai disgwyl iddynt dreulio rhwng 60% ac 80% o'u heisteddiadau? Os nad ydych chi, beth ddylai ystod y canrannau fod yn eich barn chi? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C7: Ydych chi'n cytuno â'r disgwyliad i ynadon dreulio'r eisteddiadau sy'n weddill y tu allan i'w llys cartref yn rhywle arall yn eu mainc? Os ydych chi'n anghytuno, esboniwch pam.**

**C8: Ydych chi'n cytuno y dylid disgwyl i ynadon eistedd dim ond mewn llysoedd sydd o fewn amser teithio rhesymol i gyfeiriad eu cartref neu eu gwaith, a ddiffinnir fel dim mwy na 90 munud bob ffordd? Os ydych chi'n anghytuno, beth fyddech chi'n ei awgrymu? Rhowch resymau am eich ateb.**

68. O dan y cynigion hyn, byddai gan ynadon hefyd yr opsiwn i gael eu dyrannu i achosion y tu allan i ardal eu mainc, neu hyd yn oed eu cylchdaith farnwrol ehangach[10], os oes angen dyrannu ynad ar gyfer achos a bod yr ynad yn dymuno gwneud hynny o'i wirfodd. Er enghraifft, os oes prinder ynadon mewn llys mewn mainc neu gylchdaith wahanol sy'n delio â mathau o achosion yr hoffai ynad gael profiad ohonynt, ond sy'n dal yn agos i fod o fewn taith 90 munud i'w gyfeiriad. Er enghraifft, gallai ynad sydd wedi'i neilltuo i ardal Mainc Gogledd Cymru, gyda Wrecsam fel llys cartref, eistedd mewn ardal gyfagos fel Caer neu Crewe weithiau pe bai yno anghenion busnes barnwrol.

69. Ni fyddai gallu eistedd y tu hwnt i ffin mainc yn golygu llawer o newid o'r system bresennol. Fodd bynnag, byddai mwy o hyblygrwydd i ynad eistedd y tu allan i'w gylchdaith ar gyfer y rheini sy'n byw yn agos at ffin cylchdaith. Mae eistedd y tu hwnt i ffin cylchdaith yn bosibl ar hyn o bryd, ond anaml y bydd yn digwydd yn ymarferol.


---

[10] Dyma'r cylchdeithiau barnwrol: Gogledd Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Cymru, Canolbarth Lloegr, Gorllewin Lloegr a De-ddwyrain Lloegr. Rhennir Cylchdaith De-ddwyrain Lloegr yn ddwy ardal weithredol at ddibenion llysoedd ynadon, sef Llundain a De-ddwyrain Lloegr (yn yr un modd â rhanbarthau GLlTEF a Chymru). Byddwn yn defnyddio'r term 'cylchdeithiau' i gyfeirio at y cylchdeithiau, gan gynnwys Llundain a De-ddwyrain Lloegr fel cylchdeithiau ar wahân. Gweler yr eirfa am ragor o fanylion.

Gallai hyn arwain at fanteision sylweddol ar gyfer ynadon – gan y byddai modd iddynt eistedd mewn llysoedd mewn ardaloedd sy'n nes at lle maent yn byw, gydag amrywiaeth wahanol o waith – ac ar gyfer effeithlonrwydd lleoli ynadon yn gyffredinol.

70. Rydym wedi ymrwymo o hyd i'r cysyniad o gyfiawnder lleol wrth gynnig yr hyblygrwydd cynyddol hwn, a'r angen i sicrhau cydlyniad yn y fainc. Dylai disgwyl i ynadon eistedd y rhan fwyaf o'u hachosion yn eu llys cartref a'r gweddill o fewn amser teithio rhesymol i'w cyfeiriad sicrhau nad yw amseroedd teithio ynadon yn cynyddu'n sylweddol os bydd eu meinciau'n fwy na'u hardaloedd cyfiawnder lleol presennol. Dylai cadw ffiniau meinciau a chylchdeithiau'n hyblyg helpu ynadon sy'n byw ger y ffiniau hyn i gael mynediad at ystod ehangach o waith, ond gan wneud yn siŵr eu bod yn teithio pellteroedd rhesymol i sicrhau cyfiawnder yn lleol hefyd. Yn gyffredinol, ni ddylai eisteddiadau ar draws ffin mainc neu gylchdaith fod yn fwy na 20%–40% o eisteddiadau, ac fel arfer ar ben isaf yr ystod honno.

71. Dangosir y strwythur hwn isod:



**C9: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon gael yr opsiwn i dreulio lleiafrif o eisteddiadau y tu allan i'w mainc neu eu cylchdaith farnwrol: a) os oes angen lleol; b) os yw'r ynad yn dewis gwneud hyn; ac c) os nad yw'r daith yn fwy na 90 munud bob ffordd? Rhowch resymau am eich ateb.**

**Astudiaeth achos 1**

Penodir Krishna yn ynad ar ôl i'r ardaloedd cyfiawnder lleol gael eu diddymu. Mae gan Krishna gar ac mae'n bwriadu gyrru i'r llys. Bydd yn gweithio'n bennaf yn Llys Ynadon Beverley fel ei lys cartref. Gall ddisgwyl treulio rhwng 60% ac 80% o'i eisteddiadau yno.

Mae Llys Ynadon Beverley yn eistedd o fewn mainc Glannau Humber. Mae Llysoedd Ynadon Bridlington, Grimsby a Hull a Holderness yn ardal Glannau Humber hefyd. Gall Krishna ddisgwyl treulio'r 20% i 40% sy'n weddill o'i eisteddiadau naill ai yn Llys Ynadon Bridlington, Grimsby neu Hull a Holderness, sydd i gyd o dan awr i ffwrdd mewn car o'i gartref yn Beverley. Oni chytunir fel arall, ni fyddai disgwyl i Krishna eistedd y tu allan i fainc Glannau Humber, na Chylchdaith ehangach Gogledd-ddwyrain Lloegr, lle mae mainc Glannau Humber yn eistedd.

**Astudiaeth achos 2**

Penodir Sam yn ynad ar ôl i'r ardaloedd cyfiawnder lleol gael eu diddymu ac mae'n cael ei neilltuo i Lys Ynadon Huntingdon fel ei llys cartref. Mae angen i Sam deithio i'r llys ar drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd nad oes ganddi gar.

Mae Huntingdon ym mainc Swydd Gaergrawnt. Mae Swydd Gaergrawnt yn cynnwys Llysoedd Ynadon Caergrawnt, Huntingdon a Peterborough. Fodd bynnag, dim ond yn Huntingdon y mae disgwyl i Sam eistedd, lle mae'n byw. Y rheswm am hyn yw am ei bod yn feichiog, ac mae'n fwy heriol teithio'n bellach na Huntingdon. Mae beichiogrwydd yn nodwedd warchodedig. Mae hi'n trafod hyn gyda'i harweinydd lleol, sy'n rhoi addasiad iddi yn y gweithle fel mai dim ond yn Huntingdon y disgwylir iddi eistedd, lle bydd yn hawdd iddi gyrraedd y llys ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ystod ei beichiogrwydd a'i chyfnod mamolaeth.

### Y System Deulu

72. Rydym ni'n cynnig y byddai ynadon teulu yn cael eu neilltuo i fainc pan gânt eu penodi, yn hytrach nag i ardal cyfiawnder lleol. Byddai neilltuo i fainc yn sicrhau bod yr ynadon hyn yn dal i fod yn rhan o strwythur arweinyddiaeth y fainc, fel yr amlinellir ym Mhennod 5. Fodd bynnag, byddai eu dyraniad achosion yn parhau i gael ei drefnu gan yr ardal panel teulu.

**C10: Ydych chi'n cytuno y dylid neilltuo ynadon teulu i fainc ar ôl iddynt gael eu penodi, gydag ardaloedd paneli teulu'n trefnu'r gwaith o ddyrannu achosion? Rhowch resymau am eich ateb.**

73. Rydym yn awgrymu, lle rydym yn cynnig y dylai grwpiau llysoedd ardal cyfiawnder lleol uno i ffurfio mainc fwy, y byddai ardaloedd paneli teulu sy'n cyd-fynd â'r ardal cyfiawnder lleol bresennol hefyd yn cael eu huno fel y byddent yn parhau i gyd-fynd â'r fainc newydd. Byddai hyn yn wir ar gyfer Gogledd Cymru, De Cymru, Northumbria, Swydd Derby a Cumbria.

74. Rydym yn cynnig y byddai ardal panel teulu'r Black Country a Swydd Amwythig yn eithriadau. Er bod ardaloedd paneli teulu'r Black Country a Swydd Amwythig yn cyfateb i'r ardaloedd cyfiawnder lleol a fyddai'n uno i mewn i feinciau ehangach Gorllewin Mercia a Gorllewin Canolbarth Lloegr, mae'r ardaloedd paneli teulu eraill yn y meinciau newydd hyn yn cyd-fynd ag ardaloedd y Barnwr Teulu Dynodedig ar hyn o bryd. Felly, rydym yn cynnig y byddai ardaloedd y paneli teulu hyn yn aros fel y maent.

75. Ar wahân i'r uno hyn, nid ydym yn cynnig newid ardaloedd paneli teulu. Byddai ardaloedd y paneli teulu sy'n cyd-fynd ag ardaloedd y Barnwr Teulu Dynodedig, a'r rheini sy'n cyd-fynd ag ardaloedd cyfiawnder lleol y byddai eu ffiniau yr un fath â'r meinciau newydd, yn aros yr un fath. Bydd yn dal yn bosibl diwygio'r ardaloedd hyn yn y dyfodol, os bydd angen, gyda chytundeb yr Uwch Farnwr Llywyddol a Llywydd yr Adran Deulu, fel y nodir ym Mhrotocol y Panel Teulu a wnaed o dan Reolau Ynadon Heddwch 2016.[11]

76. Nid oes disgwyl i'r newidiadau arfaethedig hyn i'r ardaloedd paneli teulu, fel cynigion ar gyfer y fainc, fod yn berffaith. Rydym yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid newid ardaloedd paneli teulu mewn ffyrdd eraill ar wahân i'r rhai a awgrymir.

**C11: Ydych chi'n cytuno, lle rydym yn cynnig y dylai grwpiau llysoedd ardaloedd cyfiawnder lleol uno i ffurfio mainc fwy, y dylid uno ardaloedd paneli teulu sy'n cyd-fynd â'r ardaloedd cyfiawnder lleol hynny hefyd fel y byddent yn parhau i gyd-fynd â'r fainc newydd? Fel arall, ydych chi'n cytuno y dylai ardaloedd paneli teulu eraill, yn gyffredinol, aros yr un fath? Os ydych chi'n teimlo y dylid diwygio unrhyw ardaloedd paneli teulu mewn unrhyw ffordd arall, rhowch fanylion a rhesymau am eich ateb.**

[11] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/709/article/8/made

77. Yn yr un modd ag ynadon yn y llys troseddol, mewn achosion lle mae'r fainc yn fwy na'r ardal cyfiawnder lleol bresennol, ni fyddem am i ynadon teulu deithio'n llawer pellach i ddod i'r llys nag y maent ar hyn o bryd. Er mwyn eu hatal rhag gorfod teithio am fwy o amser, byddai'r cynigion uchod yn berthnasol i ynadon teulu yn ogystal ag ynadon troseddol: hynny yw, byddent yn cael eu dyrannu i 'lys teulu cartref', y byddai disgwyl iddynt eistedd ynddo am 60% i 80% o'u heisteddiadau, ac ni fyddai'n fwy na 90 munud bob ffordd o'u cartref neu eu gweithle.

**C12: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon teulu gael 'llys teulu cartref', y byddai disgwyl iddynt dreulio 60% i 80% o'u heisteddiadau yno, ac na fyddai'n fwy na 90 munud o siwrnai bob ffordd o gyfeiriad eu cartref neu'u gweithle? Rhowch resymau am eich ateb.**

### Y System Ieuenctid

78. Rydym yn cynnig y byddai ynadon ieuenctid yn cael eu neilltuo i 'lys ieuenctid cartref' a allai fod yn wahanol i 'lys cartref' ynad ar gyfer gwrandawiadau troseddol oedolion.[12] Byddai'r ddau lys yn yr un ardal mainc lle bo hynny'n bosibl. Byddai aseiniadau llysoedd ieuenctid cartref yn ystyried anghenion staffio llysoedd lleol a dewisiadau personol.

79. Byddai'r rhan fwyaf o achosion ieuenctid ynadon yn cael eu dyrannu i'w llys ieuenctid cartref, gyda'r disgwyl y byddai canran lai yn digwydd mewn llysoedd ieuenctid eraill yn eu mainc. Fodd bynnag, gan nad oes gan bob llys ynadon lys ieuenctid ynghlwm wrtho, gellid dyrannu ynadon ieuenctid i achosion y tu hwnt i'w mainc yn amlach nag ynadon teulu a throseddol oedolion.

80. Ni fyddai disgwyl i ynadon ieuenctid eistedd y tu hwnt i'w cylchdaith, oni bai fod angen busnes barnwrol, a bod yr ynad yn dymuno gwneud hynny. Mae hyn yn debygol pan fydd llys ieuenctid y tu hwnt i ffin cylchdaith yn nes at gartref neu gyfeiriad gwaith ynad na llys ieuenctid yn ei gylchdaith ei hun. Yn yr un modd â'r system droseddol i oedolion, dim ond pan fydd angen gwneud hynny y gofynnir i ynadon ieuenctid eistedd y tu allan i'w mainc neu gylchdaith, a lle nad yw'r siwrnai'n fwy na 90 munud bob ffordd.

[12] Llysoedd ynadon sydd â'r awdurdod i wrando achosion ieuenctid, dan Adran 45(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1993 yw'r llysoedd ieuenctid. Nid yw pob llys ynadon yn cynnwys llys ieuenctid.

**C13: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon ieuenctid gael 'llys ieuenctid cartref', lle byddai disgwyl iddynt eistedd ar gyfer y rhan fwyaf o'u gwaith ieuenctid? Rhowch resymau am eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno, beth fyddech chi'n ei awgrymu?**

## Trefniadau pontio

81. Rydym yn cynnig y byddai ynadon troseddol, ieuenctid a theulu presennol yn cael eu neilltuo i'r llys lle maent wedi eistedd amlaf yn ystod y 12 mis diwethaf fel eu 'llys cartref'. Dylai hyn darfu cyn lleied â phosibl ar bethau, gan y byddai'r ynad yn parhau i dreulio'r rhan fwyaf o'i eisteddiadau yn yr un llys ag o'r blaen.

82. Cyn cadarnhau, byddem yn asesu i weld: (i) a yw'r llys cartref o fewn amser teithio rhesymol i gyfeiriad cartref neu gyfeiriad gwaith yr ynad; a (ii) a fydd gan y llys hwnnw adnoddau priodol. Os na chaiff y meini prawf hyn eu bodloni, byddai'r broses neilltuo'n cael ei hadolygu ochr yn ochr â data eistedd, ac mewn trafodaeth â'r ynad. Byddai cyfle i ddefnyddio disgresiwn fesul achos; er enghraifft, lle mae ynad ar hyn o bryd yn teithio i ddinas gyda siwrnai sydd ychydig yn fwy na 90 munud, ac yn fodlon parhau i wneud hynny. Mewn achosion eithriadol, lle mae ynadon presennol ar hyn o bryd yn cael eu neilltuo i leoliad sydd gryn dipyn yn bellach na 90 munud o gyfeiriad eu cartref, ac y byddai'n well o lawer ganddynt barhau i eistedd yno na lleoliad agosach, gallai fod yn bosibl iddynt aros yn y llys hwn fel eu llys cartref. Ni fyddem yn disgwyl i unrhyw ynadon newydd gael eu hanfon i lys cartref sy'n fwy na 90 munud i ffwrdd.

**Astudiaeth achos 3**

Mae Emily yn cael ei phenodi'n ynad ar ôl i'r ardaloedd cyfiawnder lleol gael eu diddymu ac mae'n cael ei neilltuo i Lys Ynadon Blackburn fel ei llys cartref.

Mae Blackburn ym Mainc Swydd Gaerhirfryn. Mae Mainc Swydd Gaerhirfryn yn cynnwys Llysoedd Ynadon Preston, Caerhirfryn, Burnley, Blackpool a Blackburn. Gall Emily ddisgwyl treulio 20% i 40% o'i heisteddiadau yn un o'r llysoedd hyn. Mae pob taith o fewn y fainc yn llai na 90 munud o'i chartref. Er enghraifft, bydd ganddi daith 35–55 munud mewn car i Lys Ynadon Blackpool, neu daith car o hyd at 90 munud i Lys Ynadon Caerhirfryn.

Mae Emily eisiau cael profiad o eistedd mewn mainc wahanol ac mae wedi trafod hyn gyda'i harweinydd lleol. Os oes angen busnes barnwrol, bydd modd i Emily eistedd yn ardal mainc gyfagos Manceinion Fwyaf, naill ai yn Wigan neu Bolton, gan fod y meinciau hyn hefyd yn llai na 90 munud o waith teithio.

**Astudiaeth achos 4**

Penodir Jo yn ynad ar ôl i'r ardaloedd cyfiawnder lleol gael eu diddymu ac mae'n cael ei neilltuo i Lys Ynadon Chesterfield fel llys cartref.

Mae Chesterfield ym mainc Swydd Derby, yng nghylchdaith Canolbarth Lloegr. Mae Derbyshire hefyd yn cynnwys Llysoedd Ynadon Derby, Ashbourne, Matlock a Buxton. Disgwylir i Jo eistedd yn Chesterfield am 60% i 80% o'r eisteddiadau. Disgwylir i'r 20% i 40% o eisteddiadau sy'n weddill fod yn llysoedd Derby, Ashbourne, Matlock neu Buxton, sydd i gyd yn daith resymol o gartref Jo yn Chesterfield.

Mae Jo yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol i eistedd fel ynad ieuenctid. Nid oes gan Chesterfield lys ieuenctid, felly gofynnir i Jo ymgymryd ag eisteddiadau'r llys ieuenctid yn Llys Ieuenctid Sheffield, a fydd yn llys ieuenctid cartref i Jo. Mae Sheffield mewn mainc a chylchdaith wahanol i Chesterfield: Mainc Gogledd Swydd Efrog yng Nghylchdaith Gogledd-ddwyrain Lloegr. Fodd bynnag, gan fod Jo yn byw ger y ffin rhwng Cylchdaith Canolbarth Lloegr a Chylchdaith Gogledd-ddwyrain Lloegr, dim ond 15 munud mae'n ei gymryd i gyrraedd yno ar y trên, felly mae Jo yn cytuno mai dyma'r lleoliad gorau i eistedd ynddo ar gyfer gwaith ieuenctid.

**Astudiaeth achos 5**

Ar hyn o bryd, mae Greg yn ynad sydd wedi'i neilltuo i Ardal Cyfiawnder Lleol Swydd Buckingham. Mae'n well ganddo ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd y llys.

Yn y 12 mis cyn diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, roedd Greg yn eistedd yn Llys Ynadon High Wycombe gan amlaf. Ar ôl i anghenion y llys gael eu hasesu, mae Greg yn cael ei neilltuo i Lys Ynadon High Wycombe fel ei lys cartref. Gall ddisgwyl eistedd yn y fan yma rhwng 60% ac 80% o'r amser. Felly ni fydd hyn yn teimlo'n wahanol i'r system flaenorol.

Mae Llys Ynadon High Wycombe yn eistedd o fewn Mainc Dyffryn Tafwys, yng Nghylchdaith De-ddwyrain Lloegr. Mae Mainc Dyffryn Tafwys hefyd yn cynnwys Llysoedd Ynadon Rhydychen, Reading, Milton Keynes a Slough. Mae pob un o'r llysoedd hyn o fewn 1 awr 15 munud i gyfeiriad gwaith Greg ar y trên, felly maent yn cael eu hystyried yn daith resymol iddo. Gall Greg ddisgwyl treulio gweddill ei eisteddiadau (rhwng 20% a 40%) yn unrhyw un o'r llysoedd hyn. Oni chytunir fel arall, ni fydd disgwyl i Greg eistedd y tu allan i Fainc Dyffryn Tafwys na Chylchdaith De-ddwyrain Lloegr.

**C14: Ydych chi'n cytuno y dylid neilltuo llys cartref i ynadon presennol ar sail lle maent wedi eistedd fwyaf dros y 12 mis diwethaf? Os ydych chi'n anghytuno, sut ydych chi'n meddwl y dylid lleoli ynadon presennol?**

83. Byddai addasiadau rhesymol yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw drefniadau eistedd ar gyfer ynadon presennol a darpar ynadon sydd ag anabledd neu salwch hirdymor cyfyngol.[13] Gall ynadon hefyd ofyn am drefniadau gweithio hyblyg lle mae eu hamgylchiadau personol yn gofyn am arferion gweithio gwahanol.

**C15: Yn eich barn chi, a fyddai'r strwythur lleoli arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw nodwedd warchodedig mewn perthynas ag a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010?[14] Os byddai yn eich tyb chi, nodwch y nodwedd(ion) gwarchodedig, a rhowch resymau am eich ateb.**

84. Ni fyddai'r cynigion uchod yn effeithio ar hawliau ynadon sy'n siarad Cymraeg i eistedd mewn llysoedd Cymraeg eu hiaith os yw hynny'n well ganddynt.[15]

13 https://www.gov.uk/government/publications/reasonable-adjustments-policy-for-disabled-judicial-office-holders

14 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149

15 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/section/22

# Pennod 5 – Arweinyddiaeth y Fainc

85. Gan fod deddfwriaeth yn datgan bod un Cadeirydd Mainc[16] ac un neu fwy o ddirprwyon yn cael eu hethol ar gyfer pob ardal cyfiawnder lleol[17], mae diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn golygu y bydd angen i ni ddiwygio'r ddeddfwriaeth hon. Felly, mae angen i ni benderfynu pa strwythur arweinyddiaeth ddylai ddisodli hyn.

## Strwythur arweinyddiaeth presennol

86. Ar hyn o bryd mae gan bob un o'r 75 ardal cyfiawnder lleol Gadeirydd Mainc, sy'n gyfrifol am arwain yr ynadaeth yn eu hardal cyfiawnder lleol. Mae Cadeiryddion Mainc yn gyfrifol am fusnes y llys, gan gynnwys rheoli eisteddiadau; rhoi gwybod i ynadon y fainc am newidiadau i'r system gyfiawnder a newidiadau i'r ffordd y mae'r llys yn gweithredu; a chynnal safonau. Maent hefyd yn caniatáu cyfnodau o absenoldeb ac ymgynghorir â nhw ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo ynadon i ardal cyfiawnder lleol arall, ymysg dyletswyddau eraill.

87. Bydd Cadeirydd y Fainc yn ymgymryd â chyfrifoldeb bugeiliol dros yr ynadon yn yr ardal cyfiawnder lleol. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod yr amrywiol aelodau'n teimlo eu bod yn cyfrannu at waith yr ardal cyfiawnder lleol, croesawu ynadon newydd, cydnabod gwasanaeth hir a chyfraniadau gwirfoddolwyr, cadw golwg ar les ynadon sy'n sâl, a diolch i ynadon sy'n ymddeol, ochr yn ochr â dyletswyddau eraill.[18]

88. Bydd Cadeirydd y Fainc yn cytuno i ymgymryd â'r dyletswyddau arwain hyn yn ogystal â'i gyfrifoldebau fel ynad. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Cadeirydd y Fainc yn ynad profiadol ac ymroddedig sydd â'r hyblygrwydd i ymgymryd â'r rôl ychwanegol.

89. Ar hyn o bryd, penodir Cadeiryddion y Meinciau drwy broses ethol flynyddol.[19] Mae gan bob ynad gweithredol yn ei ardal cyfiawnder lleol hawl i gymryd rhan yn yr etholiad. Gall Cadeirydd y Fainc wasanaethu yn ei rôl am hyd at dair blynedd yn olynol a gall wasanaethu am hyd at dair blynedd arall ar ôl bwlch o chwe blynedd.

---

16 Defnyddir 'Cadeiryddion' mewn deddfwriaeth.

17 Mae Cadeiryddion Mainc, eu rôl, a'r broses o'u hethol i'r swydd, i'w gweld mewn deddfwriaeth o dan adran 17 o Ddeddf Llysoedd 2003.

18 https://intranet.judiciary.uk/wp-content/uploads/2023/09/LCJs-Guidance-to-Bench-Chairs-on-Dealing-With-Pastoral-Matters-31st-August-2023-Final-Draft.pdf

19 Fel y nodir o dan a10(4) a (5) Deddf Llysoedd 2003.

90. Gall rôl Cadeirydd y Fainc hawlio dipyn o amser, yn enwedig mewn ardaloedd cyfiawnder lleol mwy lle mae yna nifer fawr o ynadon. Gall Cadeiryddion y Meinciau ddewis cymaint o Ddirprwyon ag y dymunant i'w cynorthwyo gyda'u dyletswyddau, gyda phob swydd dirprwy yn cael ei llenwi drwy etholiad.

91. Mae Cadeiryddion Meinciau'n rhan bwysig o'r dasg o redeg a chydlynu'r ynadaeth. Wrth i ni weithio i gynyddu amrywiaeth yr ynadaeth, rydym am sicrhau bod Cadeiryddion Meinciau'n parhau i adlewyrchu hyd a lled yr aelodaeth, a bod pob unigolyn yn teimlo ei fod yn gallu ymgymryd â'r rôl hon. Felly, rydym yn dymuno manteisio ar y ffaith bod yr ardaloedd cyfiawnder lleol yn cael eu diddymu, gan achub ar y cyfle i adolygu'r trefniadau arwain ar gyfer yr ynadaeth i sicrhau eu bod yn cefnogi'r nodau hyn.

**Arweinyddiaeth ynadon ieuenctid a theulu**

92. Cadeiryddion y Meinciau sy'n arwain ynadon ieuenctid a theulu, gydag ambell beth yn disgyn ar ysgwyddau Cadeiryddion Paneli Teulu ac Ieuenctid drwy ddirprwyaeth Cadeirydd y Fainc dan arweiniad yr Arglwyddes Brif Ustus. Mae pob ynad ieuenctid a theulu yn perthyn i'w banel lleol, sy'n cael ei oruchwylio gan Gadeirydd y Panel Ieuenctid neu Gadeirydd y Panel Teulu, yn y drefn honno, gydag o leiaf un dirprwy i bob panel.

93. Mae pwrpas y paneli a rôl Cadeiryddion y Paneli yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion gorau, cyfathrebu, hyrwyddo recriwtio, a rhannu barn ynadon ieuenctid neu deulu gyda grwpiau llywodraethu perthnasol. Mewn rhai achosion, dirprwyir agweddau ar gyfrifoldeb bugeiliol gan Gadeirydd y Fainc i Gadeirydd y Panel Teulu.

94. Mae Cadeiryddion a Dirprwyon y Paneli Ieuenctid a Theulu yn cael eu hethol gan yr ynadon yn ardaloedd y Panel Ieuenctid a Theulu yn y drefn honno. Mae'r etholiadau hyn yn dilyn yr un broses â'r un a ddefnyddir yn yr etholiadau ar gyfer Cadeiryddion y Meinciau.[20]

95. Mae ardaloedd Panel Ieuenctid yn cyd-fynd ag ardaloedd cyfiawnder lleol i raddau helaeth, ond bu uno mewn rhai achosion, sy'n golygu bod rhai ardaloedd paneli'n fwy na'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol. Trefnir ardaloedd y Panel Teulu naill ai o amgylch ardaloedd y Barnwr Teulu Dynodedig, neu o amgylch un neu fwy o ardaloedd cyfiawnder lleol. Gall ardaloedd y paneli ieuenctid a theulu gael eu newid gan yr Uwch Farnwr Llywyddol a Llywydd yr Adran Deulu yn y drefn honno, fel y nodir yn y Protocolau ar gyfer Paneli Ieuenctid a Theulu a wnaed o dan Reolau Ynadon Heddwch 2016.[21]

---

[20] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/709/article/8/made

[21] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/709/article/8/made

## Arweinyddiaeth ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol

96. Rydym wedi ymrwymo'n gryf i gynnal strwythur cadarn ar gyfer arweinyddiaeth leol ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, gan sicrhau bod ynadon yn teimlo bod ganddynt gysylltiad lleol â gweinyddu cyfiawnder wrth iddynt wasanaethu eu cymunedau lleol.

97. Rydym yn croesawu barn am sut gallai'r strwythur arwain hwn edrych. Amlinellir isod rai modelau posibl ar gyfer newid rôl Cadeirydd y Fainc, ond rydym yn barod i ystyried opsiynau eraill.

98. Awgrymwn y byddai rôl Cadeirydd y Fainc yn parhau ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol. Byddai Cadeirydd Mainc yn ysgwyddo'r un cyfrifoldebau â'r rhai presennol. Yn hytrach na goruchwylio ardal cyfiawnder lleol, byddai Cadeiryddion y Meinciau yn goruchwylio un o'r meinciau arfaethedig. Felly, pe baem yn creu'r 58 mainc a ddisgrifir yn Atodiadau B, byddai hyn yn golygu y byddai angen 58 o Gadeiryddion ar gyfer y Meinciau, yn hytrach na'r 75 presennol.

99. Byddai hyn yn rhoi cylch gwaith ehangach i rai Cadeiryddion nag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Er mwyn osgoi'r risg y bydd y rôl yn mynd yn rhy eang, rydym yn edrych ar opsiynau isod a allai helpu i rannu llwyth gwaith Cadeirydd y Fainc. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd rhannu'r llwyth gwaith yn gwneud y rôl yn fwy deniadol i ymgeiswyr. Dylai hyn helpu i annog amrywiaeth fwy eang o ymgeiswyr, gan gryfhau cynrychiolaeth ddemocrataidd i'r fainc drwy gynyddu'r gystadleuaeth am y rôl.

100. Drwy leihau'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â rôl Cadeirydd y Fainc, credwn y byddem yn helpu i sicrhau bod arweinwyr yn cynrychioli ac yn dod o ynadaeth fwy amrywiol. Fodd bynnag, rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a fyddai hyn yn annog mwy o geisiadau, ynteu a allai newidiadau eraill wneud y rôl yn fwy deniadol.

**C16: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o rannu llwyth gwaith rôl Cadeirydd y Fainc er mwyn ei hwyluso ac i annog mwy o ynadon i ymgeisio am y swydd? Os ydych chi'n meddwl bod newidiadau eraill a allai annog mwy o bobl i wneud cais am y rôl, cofiwch eu rhestru. Rhowch resymau am eich ateb.**

*Newid cwmpas rôl Cadeirydd y Fainc*

101. Rydym yn agored i drafod sut y gellid rhannu cylch gwaith y rôl i hwyluso pethau i ddeiliaid y swyddi. Gallai hynny gynnwys un neu fwy o'r canlynol:
    i. Rhannu'r rôl yn ddwy: byddai un arweinydd yn gyfrifol am reoli busnes y llys, a byddai arweinydd neu arweinwyr eraill (yn amodol ar faint y fainc) yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb arweiniol dros faterion lles a bugeiliol.

ii. Gwneud gwell defnydd o ddirprwyon i rannu cyfrifoldebau Cadeirydd y Fainc.

*Opsiwn i: Rhannu'r rôl yn ddwy: rheoli busnes y llys; ac arweinyddiaeth fugeiliol a lles*

102. Yn yr opsiwn hwn, byddai rolau a chyfrifoldebau Cadeirydd y Fainc, fel y crynhoir yn fyr uchod, yn cael eu rhannu rhwng dau arweinydd, er mwyn gwneud llwyth gwaith pawb yn haws na'r hyn y disgwylir i Gadeirydd y Fainc ei wneud ar hyn o bryd. Byddai un arweinydd yn goruchwylio'r gwaith o reoli busnes y llys, fel egluro newidiadau i'r system gyfiawnder a newidiadau i'r ffordd y mae'r llys yn gweithredu, yn ogystal â chynnal safonau. Byddai'r ail arweinydd yn goruchwylio pryderon bugeiliol a lles yr ynadon. Yn y senario hon, byddai 116 o Gadeiryddion: dau ar gyfer pob un o'r 58 mainc arfaethedig.

**C17: Ydych chi'n meddwl y dylid rhannu'r rôl arwain yn ddwy: un yn rheoli busnes y llys a'r llall yn goruchwylio materion bugeiliol a lles? Rhowch resymau am eich ateb.**

*Opsiwn ii: Gwneud gwell defnydd o ddirprwyon*

103. Er y bydd modd i bob Cadeirydd Mainc gael un dirprwy neu fwy bob un, rydym yn deall nad yw rhai ardaloedd yn penodi digon o ddirprwyon ar hyn o bryd (neu nad ydynt yn penodi rhai o gwbl) ac y gallai eraill fod yn gwneud gwell defnydd o'r rôl hon drwy roi mwy o lwyth gwaith y Cadeirydd i'r dirprwy/dirprwyon.

104. Gofynnwn i ymatebwyr ystyried sut y gellid defnyddio rôl y dirprwy yn well fel bod cyfrifoldebau'r Cadeirydd yn cael eu rhannu, gan wneud ei lwyth gwaith yn haws. Er enghraifft, gallem ystyried cyflwyno rheolau neu ganllawiau sy'n pennu faint o ddirprwyon y dylid eu cael fesul llys neu fesul nifer o ynadon. Un enghraifft bosibl fyddai cael un dirprwy i bob hanner cant neu gant o ynadon mewn mainc, neu gael un dirprwy i bob llys yn y fainc. Gallem hefyd ystyried cyflwyno rheolau neu ganllawiau ar gyfer agweddau penodol ar rôl Cadeirydd y Fainc i'w dirprwyo i'r dirprwy/dirprwyon.

**C18: Sut ydych chi'n meddwl y gellid defnyddio Dirprwy Gadeiryddion y Fainc yn well i rannu cyfrifoldebau'r Cadeirydd? Er enghraifft, ydych chi'n meddwl y dylid cael rheolau neu ganllawiau ar gyfer faint o ddirprwyon y dylid eu penodi, yn unol â nifer yr ynadon neu'r llysoedd sydd mewn mainc? A/neu, a ddylid cael canllawiau neu reolau ar gyfer pa agweddau ar gyfrifoldebau'r Cadeirydd ddylai gael eu pasio i ddirprwyon? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C19: Ydych chi'n ffafrio un o'r opsiynau o dan i a ii uchod? Hynny yw, ydych chi'n meddwl y byddai'n well rhannu rôl Cadeirydd y Fainc yn swyddogaethau sy'n ymdrin â busnes y llys a materion bugeiliol, ynteu ydych chi'n meddwl y dylid gwneud gwell defnydd o ddirprwyon i rannu'r baich gwaith? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C20: Ydych chi'n meddwl y gallem wneud unrhyw newidiadau eraill i rôl Cadeirydd y Fainc i annog mwy o ynadon i ymgeisio am y swydd hon? Rhowch resymau am eich ateb.**

*Nifer yr ynadon y gallai un Cadeirydd Mainc eu goruchwylio*

105. Gan y bydd llawer o ffactorau'n effeithio ar gwmpas y swyddogaethau arwain hyn, gan gynnwys faint o ynadon sydd ym mhob mainc, byddai'n fuddiol sefydlu egwyddor arweiniol ar gyfer beth sy'n ddisgwyliadau rhesymol. Felly, rydym yn gwahodd ymatebwyr i ystyried faint o ynadon y byddai'n rhesymol disgwyl i un arweinydd eu goruchwylio.

**C21: Faint o ynadon ydych chi'n meddwl y byddai'n rhesymol i un arweinydd eu goruchwylio? Rhowch ffigur ar gyfer y canlynol: (a) arweinwyr a fyddai'n goruchwylio busnes barnwrol yn unig; (b) arweinwyr a fyddai'n goruchwylio materion bugeiliol yn unig; (c) arweinwyr a fyddai'n goruchwylio busnes barnwrol a materion bugeiliol. Rhowch resymau am eich ateb.**

*Trefniadau pontio*

106. Mae'r opsiynau uchod yn cynnig amrywiaeth o wahanol senarios ar gyfer arweinyddiaeth y meinciau. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n debygol y byddai mwy o Gadeiryddion Meinciau o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol, tra byddai llai mewn rhai eraill. Byddai angen i ni roi ystyriaeth ofalus i sut i reoli'r broses newid wrth drosglwyddo Cadeiryddion presennol y Meinciau i'r strwythur newydd. Byddwn yn gallu ystyried hyn pan fydd gennym syniad pa gyfuniad o'r opsiynau uchod, os o gwbl, a ddefnyddir. Y nod fyddai tarfu cyn lleied â phosibl ar Gadeiryddion Meinciau presennol mewn unrhyw sefyllfa.

## Ethol neu ddethol

107. Dan yr holl opsiynau uchod, gofynnwn i ymatebwyr ystyried a ddylai swyddogaethau Cadeirydd y Fainc; Dirprwy Gadeirydd y Fainc; Cadeirydd y Panel Teulu; Cadeirydd y Panel Ieuenctid a Dirprwy Gadeirydd y Panel Teulu/Ieuenctid:

a) barhau i gael eu hethol gan gyd-ynadon;

b) gael eu dewis, gydag ynadon cymwys yn cyflwyno datganiad o ddiddordeb ac yn cael eu dewis gan gorff gwerthuso; neu
c) fod yn hybrid, gan ddilyn proses ethol ar gyfer rhai swyddogaethau a phroses o ddethol a dewis ar gyfer rhai eraill.

108. Byddai dilyn proses ddethol yn sicrhau bod y rôl yn cyd-fynd â'r farnwriaeth ehangach. Gallai hyn fod yn decach ac yn fwy tryloyw. Y ddadl yw y byddai'r corff gwerthuso – sef panel o farnwyr – yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl meini prawf tryloyw sy'n berthnasol i'r rôl. Gallai hyn sicrhau bod gan arweinwyr y sgiliau priodol ar gyfer y rôl ac felly eu bod yn gallu cyflawni'r holl ddyletswyddau a ddisgwylir ganddynt. Yn y sefyllfa hon, byddai'r corff gwerthuso dan oruchwyliaeth yr Uwch Farnwr Llywyddol a'r Arglwyddes Brif Ustus.

109. Byddai cadw etholiadau'n fwy cyfarwydd i ynadon gan mai dyma sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae dadl i'r gwrthwyneb y byddai proses etholiadol, mewn gwirionedd, yn decach ac yn fwy tryloyw nag ymarfer dethol, ac y gallai ynadon deimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n well.

110. Gallai fod yn bosibl defnyddio dull hybrid o ethol a dethol ar gyfer rolau gwahanol. Er enghraifft, os rhennir y rôl arwain yn ddwy, byddai modd dewis arweinydd busnes y llys a byddai modd ethol yr arweinydd bugeiliol.

**C22: Ydych chi'n meddwl y dylai arweinwyr lleol yr ynadon (Cadeirydd y Fainc; Dirprwy Gadeirydd y Fainc; Cadeirydd y Panel Teulu; Cadeirydd y Panel Ieuenctid a Dirprwyon y Paneli Teulu/Ieuenctid) gael eu hethol ynteu eu dethol, neu gyfuniad o'r ddau? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C23: Os ydych chi'n credu y dylid ethol rhai arweinwyr a dethol rhai eraill, nodwch y mathau o rolau y dylid defnyddio proses ethol ar eu cyfer a pha rai y dylid defnyddio proses ddethol ar eu cyfer.**

**C24: Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill ynghylch sut y gellid gwella'r strwythur arweinyddiaeth leol sy'n bodoli ar hyn o bryd? Rhowch resymau am eich ateb.**

### Arweinyddiaeth paneli ynadon ieuenctid a theulu

111. Ar wahân i ystyried a ddylid ethol ynteu ddethol Cadeiryddion y Paneli Ieuenctid a Theulu, nid ydym yn cynnig newid arweinyddiaeth y paneli ieuenctid a'r paneli teulu. Gan fod cylch gwaith Cadeirydd y Panel Ieuenctid a Chadeirydd y Panel Teulu yn gyffredinol yn llai na chylch gwaith Cadeirydd y Fainc, rydym yn deall bod digon o ymgeiswyr fel arfer i ymgymryd â'r rolau hyn. Felly nid ydym yn ystyried a ddylid rhannu'r cylch gwaith yn yr un modd â rôl Cadeirydd y Fainc. Gan fod rhai o

ardaloedd y Paneli Ieuenctid a Theulu wedi'u strwythuro gan ardaloedd cyfiawnder lleol, rydym yn disgwyl y bydd angen newid yr ardaloedd panel hyn i gyd-fynd â'r meinciau (fel y nodir yn fanylach ym Mhennod 4 ar ardaloedd paneli teulu). Gan fod ardaloedd paneli ieuenctid a theulu yn fwy hyblyg nag ardaloedd cyfiawnder lleol a bod modd i'r Uwch Farnwr Llywyddol neu Lywydd yr Adran Deulu eu newid, rydym hefyd yn disgwyl y bydd newidiadau i'r ardaloedd hyn yn parhau i gael eu gwneud yn ôl yr angen.

**C25: Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y cynigion ar gyfer arweinyddiaeth yn y bennod hon sy'n ymwneud â'r systemau ieuenctid neu deulu?**

# Pennod 6 – Hyfforddiant a Phwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu (TAAACau)

## Rolau a strwythur presennol y TAAACau

### Hyfforddiant

112. Mae'r dasg o hyfforddi ynadon yn cael ei goruchwylio'n lleol gan y Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu (TAAACau) drwy weithio gyda'r partner dysgu.[22] Bydd y partner dysgu yn aelod o staff y Coleg Barnwrol sy'n goruchwylio'r gwaith o ddarparu hyfforddiant i ynadon. Mae dau fath o bwyllgor: Y JTAAAC ar gyfer materion troseddol, gan gynnwys materion y llys Ieuenctid, a'r FTAAAC ar gyfer materion Teulu.[23] Bydd pob TAAAC yn cymeradwyo cynllun hyfforddi ar gyfer ei awdurdodaeth, yn unol â'r rhaglen hyfforddi genedlaethol (a gyhoeddir gan y Coleg Barnwrol ar ran yr Arglwyddes Brif Ustus).

### Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu

113. Mae'r TAAACau hefyd yn goruchwylio'r broses o gymeradwyo unigolion i lywyddu mewn llysoedd; awdurdodi i eistedd fel ynadon ieuenctid neu deulu; a rheoli'r cynllun arfarnu a mentora yn eu hardal[24].

### Strwythur ac aelodaeth TAAACau

114. Mae pob TAAAC yn cynnwys rhwng 6 a 24 o ynadon;[25] cynrychiolydd o Gymdeithas yr Ynadon;[26] a chynrychiolydd o GLlTEF.[27]

115. Ar hyn o bryd, mae 23 JTAAAC a 22 FTAAAC. Bydd TAAACau yn goruchwylio gwaith hyfforddi, cymeradwyo, awdurdodi ac arfarnu ynadon yn yr ardaloedd

---

22 Mae'r partner dysgu yn aelod o staff y Coleg Barnwrol sy'n goruchwylio'r gwaith o ddarparu hyfforddiant i ynadon. Mae 7 partner dysgu, un ar gyfer pob cylchdaith farnwrol a Llundain.

23 https://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/709/part/4/made

24 Mae'r cyfrifoldeb dros gymeradwyo, awdurdodi ac arfarnu yn fwy syml na hyfforddiant, gan fod y meysydd hyn i gyd wedi'u dirprwyo i'r TAAACau yn unig.

25 Cyfeirir yn swyddogol at ynadon sy'n aelodau o'r JTAAACau a'r FTAAACau fel 'justice members' yn Rheolau Ynadon Heddwch 2016 (y 'Rheolau'). Byddwn yn cyfeirio atynt yma fel ynadon sy'n aelodau er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth.

26 Cymdeithas yr Ynadon yw'r corff aelodaeth ar gyfer ynadon (www.magistrates-association.org.uk).

27 Mae swyddogaethau ac aelodaeth y pwyllgorau wedi'u nodi yn Rheolau Ynadon Heddwch 2016 (y 'Rheolau') ac maent yn cael eu hawdurdod o Ddeddf Llysoedd 2003.

cyfiawnder lleol sy'n ffurfio'r ardal TAAAC honno. Mae hyn yn golygu, unwaith y bydd ardaloedd cyfiawnder lleol wedi'u diddymu, bydd angen diwygio'r rheolau ynghylch aelodaeth pwyllgorau ar gyfer ynadon sy'n aelodau. Trafodir hyn ymhellach isod. Rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle hwn i ystyried agweddau ehangach ar swyddogaethau ac aelodaeth TAAACau. Gan nad yw diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn effeithio'n uniongyrchol ar y materion hyn, byddai unrhyw newidiadau'n cael eu hystyried yn y tymor hwy. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer arfarnu, cymeradwyo ac awdurdodi yn rhan o gwmpas yr ymgynghoriad hwn.

116. Mae'r holl newidiadau i'r TAAACau a ystyrir isod yn annibynnol ar ei gilydd, a bydd unrhyw newidiadau'n cael eu llywio gan yr ymatebion a geir i'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn croesawu sylwadau ynghylch pa rai, os o gwbl, fyddai'n fwyaf defnyddiol i ynadon.

## Aelodaeth TAAAC a diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol

117. O ganlyniad uniongyrchol i ddiddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, byddai angen i ynadon sy'n aelodau o'r TAAACau ddod o ardal ddaearyddol ddiwygiedig. Ein cynnig ni yw cael aelodau o'r fainc arfaethedig berthnasol yn ardal ddaearyddol y TAAAC yn hytrach nag o ardaloedd cyfiawnder lleol. Nodir dyluniad y fainc ym Mhennod 2 ac yn atodiadau A, B ac C.

## Newidiadau arfaethedig i strwythur ac aelodaeth TAAACau

### Cynrychiolaeth ddaearyddol

118. Rydym yn cynnig bod 45 TAAAC yn ormod, a byddai lleihau'r nifer yn arwain at weithredu mwy effeithiol. Rydym yn croesawu ymatebion ar leihau'r nifer i 14, gyda dau TAAAC – un ar gyfer materion troseddol ac un ar gyfer materion teulu – ar gyfer pob un o'r saith cylchdaith farnwrol.[28] Byddai hyn yn efelychu'r strwythur presennol yn Llundain. Byddai aelodau'n dod o'r meinciau sy'n eistedd o fewn y gylchdaith honno. Byddai hyn yn rhoi mwy o gysondeb ar draws pob rhanbarth na'r strwythur presennol, sy'n amrywio'n fawr o ran maint a dosbarthiad. Mae elfennau o'r TAAACau eisoes yn gweithredu ar lefel cylchdaith, felly dylai ffurfio'r TAAACau fesul

[28] Yn dechnegol, mae'r TAAACau yn dilyn strwythur rhanbarthau GLITEF a Chymru yn hytrach na strwythur cylchdaith. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb o ran terminoleg drwy'r papur hwn, byddwn yn cyfeirio at 'gylchdeithiau' i olygu'r cylchdeithiau barnwrol a Llundain, sy'n cyfateb i ranbarthau GLITEF a Chymru. Gweler troednodyn**Error! Bookmark not defined.** a'r eirfa i gael rhagor o wybodaeth.

cylchdaith weithio'n dda.[29] Bydd dull sy'n seiliedig ar gylchdeithiau'n annog pawb i rannu arferion gorau ac adnoddau ar draws ffiniau daearyddol ac yn hyrwyddo cysondeb.

119. Byddai hyn yn lleihau nifer aelodau'r TAAAC mewn cylchdaith, ond byddem yn sicrhau bod pob mainc newydd yn cael ei chynrychioli'n briodol.

120. Rydym yn ymwybodol y gall pwyllgorau gyda llawer o aelodau fod yn anhylaw, felly gallem sefydlu strwythur is-bwyllgorau i ganiatáu i faterion penodol sy'n effeithio ar yr holl gylchdaith a gynrychiolir gael eu hystyried gan lai o ynadon.

**C26: Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau'r 45 TAAAC i 14, gydag un JTAAAC ac un FTAAAC ar gyfer pob un o'r saith cylchdaith farnwrol a Llundain? Rhowch resymau am eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno, sut ydych chi'n meddwl y dylid trefnu TAAACau yn ddaearyddol?**

**C27: Oes gennych chi syniadau ynghylch sut y gellid strwythuro TAAACau mwy gan ddefnyddio is-bwyllgorau, gweithgorau neu fecanweithiau eraill? Beth allai'r is-strwythurau hynny ei gynnwys? Rhowch wybod i ni beth yw eich syniadau.**

**Aelodau'r TAAACau**

121. Fel rhan o'r model cyflawni ar gyfer hyfforddiant ynadon rhanbarthol, mae'r Coleg Barnwrol wedi cyflwyno rôl partneriaid dysgu. Mae'r partneriaid dysgu'n sicrhau bod hyfforddiant cenedlaethol craidd yn cael ei ddarparu yn eu cylchdaith.[30] Er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydgysylltiedig ar draws y cyrff hyn, rydym yn cynnig y dylid gwneud y partner dysgu'n aelod statudol o'r TAAAC neu'r TAAACau perthnasol.[31]

---

[29] Er enghraifft, mae TAAACau fel arfer yn cael eu cefnogi gan Uwch Reolwyr Cyfreithiol neu Reolwyr Tîm Cyfreithiol GLlTEF (Hyfforddiant), sy'n gweithio i gylchdaith. Mae'r Coleg Barnwrol hefyd wedi gweithredu model hyfforddi sy'n seiliedig ar gylchdaith. Mae cylchdeithiau fel Llundain eisoes wedi creu un ardal TAAAC, tra bo eraill yn rhedeg fforymau TAAAC strategol ar lefel cylchdaith.

[30] Mae pob un yn gyfrifol am ranbarth sy'n cyd-fynd â chylchdeithiau GLlTEF o ranbarthau a Chymru, ond rydym yn defnyddio'r term 'cylchdaith' i sicrhau cysondeb. Gweler troednodyn**Error! Bookmark not defined.** a'r eirfa i gael rhagor o wybodaeth.

[31] Mae'r Rheolau'n nodi y dylai pob TAAAC gynnwys rhwng 6 a 24 o ynadon o'r ardaloedd cyfiawnder lleol perthnasol, gan gynnwys un a enwebwyd gan Gymdeithas yr Ynadon, a Chlerc yr Ynadon (y Pennaeth Gweithrediadau Cyfreithiol erbyn hyn) neu eu cynorthwy-ydd enwebedig. Ar gyfer JTAAACau, rhaid cael digon o aelodau ieuenctid, ac mae angen bod yn ynad teulu i fod yn aelod o'r FTAAAC.

**C28: Ydych chi'n cytuno y dylai partner dysgu rhanbarthol y Coleg Barnwrol fod yn aelod statudol o'r TAAACau? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C29: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am aelodaeth y TAAACau? Os oes, rhowch fanylion.**

### Ethol neu ddethol

122. Penodir ynadon ac ynadon teulu yn aelodau i bob TAAAC gan Banel Dethol. Mae'r Panel Dethol yn cynnwys ynadon a etholir yn uniongyrchol gan eu hardaloedd cyfiawnder lleol. Gall aelodau Paneli Dethol wasanaethu am hyd at chwe blynedd. Gall yr ynadon sy'n aelodau o bob TAAAC wasanaethu am hyd at naw mlynedd. Er bod y weithdrefn hon yn sicrhau bod cysylltiad clir rhwng y pwyllgorau a'r ardaloedd cyfiawnder lleol, rydym yn deall y gall y broses dau gam hon deimlo'n ddryslyd, a gall fod yn anodd i ardaloedd ddarparu adnoddau ar gyfer Paneli Dethol.

123. Felly, rydym yn gwahodd ymatebwyr i ystyried a ddylai ynadon sy'n aelodau o'r TAAAC gael eu hethol ynteu eu dewis yn uniongyrchol, gan ddileu'r angen am Baneli Dethol. Yn yr un modd ag ethol neu ddethol ar gyfer y swyddi arwain, mae manteision i'r ddwy ffordd o fynd o'i chwmpas hi, a amlinellir ym mharagraffau **Error! Reference source not found.–Error! Reference source not found.** ym Mhennod 5.

**C30: Ydych chi'n meddwl y dylai ynadon sy'n aelodau o'r TAAAC gael eu hethol ynteu eu dewis yn uniongyrchol? Rhowch resymau am eich ateb.**

## Newidiadau tymor hwy posibl i'r TAAACau

### Cyfuno JTAAACau ac FTAAACau

124. Awgrymwyd uchod y gallai lleihau nifer y TAAACau yn sylweddol eu gwneud yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, gall cael TAAAC gwahanol ar gyfer y systemau teulu a throseddol hefyd arwain at ddyblygu. Mae prosesau cymeradwyo, awdurdodi ac arfarnu'n gweithio union yr un fath mewn pwyllgorau Troseddol a Theulu. Felly, gallai cyfuno pwyllgorau rannu cyfleoedd ac arferion da ar draws y ddwy awdurdodaeth hyn, yn enwedig ar faterion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddiant ar faterion cyfreithiol. Pe bai hyn yn digwydd, byddem yn dal i greu cynlluniau hyfforddi ar wahân ar gyfer teuluoedd a throseddu er mwyn sicrhau bod materion sy'n benodol i bob awdurdodaeth yn cael eu hystyried.

125. Ar y llaw arall, gan fod rhai anghenion hyfforddi ar wahân ar gyfer ynadon teulu a throseddol, gallai fod yn fuddiol cadw'r ddau bwyllgor ar wahân. Sut ydych chi'n meddwl y gellid defnyddio Dirprwy Gadeiryddion y Fainc yn well i rannu cyfrifoldebau'r Cadeirydd?

**C31: A ddylid cyfuno'r JTAAACau (troseddol) a'r FTAAACau (teulu) ymhellach i greu un TAAAC ar gyfer pob cylchdaith, a fyddai'n cynnwys materion teulu a throseddol? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C32: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y TAAACau? Os oes, rhowch fanylion.**

# Asesiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb

126. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith fel rhan o'r broses o basio Deddf Adolygiadau Barnwrol a'r Llysoedd 2022, a oedd yn cynnwys manylion am y manteision o ran costau a oedd yn debygol pe bai'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn cael eu diddymu. Gellir gweld yr Asesiad Effaith hwn drwy ddilyn y ddolen hon: (https://bills.parliament.uk/publications/42317/documents/1348) – gweler paragraffau 170–176 ynghylch ardaloedd cyfiawnder lleol.

127. Ni fydd dim un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cyflwyno rheoliadau newydd ar y sector preifat nac yn costio £5 miliwn neu fwy i'r pwrs cyhoeddus. O ganlyniad, nid oes Asesiad Effaith newydd wedi cael ei lunio i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn.

128. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GLITEF a'r Swyddfa Farnwrol yn parhau i adolygu'r sefyllfa i sicrhau na fydd y costau'n fwy na £5 miliwn. Byddwn yn cyhoeddi Asesiad Effaith ochr yn ochr â'r ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwn os daw'n amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori neu wrth ddadansoddi'r ymatebion bod angen gwneud hyn.

129. Rydym wedi cwblhau Datganiad Cydraddoldeb i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

130. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar gydraddoldeb, gan y bydd y profiad o eistedd fel ynad yn teimlo'n debyg iawn i'r sefyllfa bresennol. Ni fydd y rhestrau – ac felly'r trefniadau ar gyfer defnyddwyr y llys – yn newid o ganlyniad i'n cynigion. Mae siawns fechan y gofynnir i leiafrif o ynadon eistedd ymhellach i ffwrdd (yn dibynnu ar angen busnes barnwrol ac amser teithio o gyfeiriad cartref yr ynadon). Gallai hyn achosi gwahaniaethu anuniongyrchol, ond bydd addasiadau i ddisgwyliadau eistedd ar gael i atal hyn.

131. Ar ôl ystyried effaith y newidiadau arfaethedig i arweinyddiaeth y fainc, nid ydym yn rhagweld unrhyw effeithiau gwahaniaethol tebygol gan fod yr opsiynau'n ystyried sut y gellid newid rôl Cadeirydd y Fainc i leihau ei gylch gwaith. Y dybiaeth gyffredinol yw y bydd yn llai heriol o ran amser a chwmpas, ac felly gallai wneud y rôl yn fwy hygyrch a deniadol i unigolion â nodweddion gwarchodedig.

## Cyfieithu i'r Gymraeg

132. Mae cyfieithiad Cymraeg o Grynodeb Gweithredol yr ymgynghoriad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

**C33: Yn eich barn chi, beth yw'r effeithiau ar gydraddoldeb mewn perthynas ag unigolion â nodweddion gwarchodedig ym mhob un o'r opsiynau arfaethedig ar gyfer diwygio? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

**C34: Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir ystod a maint yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion hyn a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel sy'n briodol.**

**C35: A oes mathau o fesurau lliniaru mewn perthynas ag effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi'u hystyried?**

**C36: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am ein newidiadau arfaethedig i ardaloedd cyfiawnder lleol o ran recriwtio, lleoli, arwain a hyfforddi?**

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd yn y papur ymgynghori hwn. Peidiwch â theimlo bod angen i chi ateb pob cwestiwn. Mae croeso i chi ateb dim ond y rhai yr ydych y mae gennych wybodaeth neu farn amdanynt.

**C1: Ydych chi'n cytuno mai dyma elfennau ehangach y system ynadon y mae diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol yn debygol o effeithio arnynt: recriwtio; lleoli; arwain; a hyfforddi? Os ydych chi'n meddwl bod hyn yn debygol o effeithio ar elfennau eraill, cofiwch eu rhestru.**

**C2: Ydych chi'n cytuno y dylid grwpio llysoedd ynadon yn feinciau a fyddai naill ai: yn cyfateb i ardaloedd cyfiawnder troseddol; neu, yn defnyddio ffiniau'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol, os yw'r ardal cyfiawnder lleol yn rhy fawr i weithredu fel un fainc? Os nad ydych chi, sut ydych chi'n credu y dylem ffurfio meinciau? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C3: Ydych chi'n cytuno â'r 58 o feinciau a gynigir yn Atodiad B? Rhowch resymau am eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno, rhowch fanylion unrhyw faterion sy'n berthnasol i fainc benodol, ac awgrymwch unrhyw opsiynau eraill sydd gennych.**

**C4: Ydych chi'n meddwl y byddai unrhyw un o'r cynigion yn y papur hwn yn effeithio ar systemau'r llysoedd teulu neu ieuenctid mewn ffyrdd ar wahân i'r rhai a nodwyd? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C5: Ydych chi'n cytuno mai dim ond mân newidiadau y byddai angen eu gwneud i'r broses recriwtio ynadon o ganlyniad i ddiddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, lle mai'r fainc fyddai'n ymdrin â swyddi gwag a neilltuo ynadon yn hytrach nag ardal cyfiawnder lleol? Ydych chi'n meddwl ei bod yn debygol y bydd rhagor o effeithiau ar y system recriwtio nad ydym ni wedi'u hystyried? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C6: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon gael 'llys cartref', lle byddai disgwyl iddynt dreulio rhwng 60% ac 80% o'u heisteddiadau? Os nad ydych chi, beth ddylai ystod y canrannau fod yn eich barn chi? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C7: Ydych chi'n cytuno â'r disgwyliad i ynadon dreulio'r eisteddiadau sy'n weddill y tu allan i'w llys cartref yn rhywle arall yn eu mainc? Os ydych chi'n anghytuno, esboniwch pam.**

**C8: Ydych chi'n cytuno y dylid disgwyl i ynadon eistedd dim ond mewn llysoedd sydd o fewn amser teithio rhesymol i gyfeiriad eu cartref neu eu gwaith, a ddiffinnir fel dim mwy na 90 munud bob ffordd? Os ydych chi'n anghytuno, beth fyddech chi'n ei awgrymu? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C9: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon gael yr opsiwn i dreulio lleiafrif o eisteddiadau y tu allan i'w mainc neu eu cylchdaith farnwrol: a) os oes angen lleol; b) os yw'r ynad yn dewis gwneud hyn; ac c) os nad yw'r daith yn fwy na 90 munud bob ffordd? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C10: Ydych chi'n cytuno y dylid neilltuo ynadon teulu i fainc ar ôl iddynt gael eu penodi, gydag ardaloedd paneli teulu'n trefnu'r gwaith o ddyrannu achosion? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C11: Ydych chi'n cytuno, lle rydym yn cynnig y dylai grwpiau llysoedd ardaloedd cyfiawnder lleol uno i ffurfio mainc fwy, y dylid uno ardaloedd paneli teulu sy'n cyd-fynd â'r ardaloedd cyfiawnder lleol hynny hefyd fel y byddent yn parhau i gyd-fynd â'r fainc newydd? Fel arall, ydych chi'n cytuno y dylai ardaloedd paneli teulu eraill, yn gyffredinol, aros yr un fath? Os ydych chi'n teimlo y dylid diwygio unrhyw ardaloedd paneli teulu mewn unrhyw ffordd arall, rhowch fanylion a rhesymau am eich ateb.**

**C12: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon teulu gael 'llys teulu cartref', y byddai disgwyl iddynt dreulio 60% i 80% o'u heisteddiadau yno, ac na fyddai'n fwy na 90 munud o siwrnai bob ffordd o gyfeiriad eu cartref neu'u gweithle? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C13: Ydych chi'n cytuno y dylai ynadon ieuenctid gael 'llys ieuenctid cartref', lle byddai disgwyl iddynt eistedd ar gyfer y rhan fwyaf o'u gwaith ieuenctid? Rhowch resymau am eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno, beth fyddech chi'n ei awgrymu?**

**C14: Ydych chi'n cytuno y dylid neilltuo llys cartref i ynadon presennol ar sail lle maent wedi eistedd fwyaf dros y 12 mis diwethaf? Os ydych chi'n anghytuno, sut ydych chi'n meddwl y dylid lleoli ynadon presennol?**

**C15: Yn eich barn chi, a fyddai'r strwythur lleoli arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw nodwedd warchodedig mewn perthynas ag a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010?[32] Os byddai yn eich tyb chi, nodwch y nodwedd(ion) gwarchodedig, a rhowch resymau am eich ateb.**

32 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149

**C16: Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o rannu llwyth gwaith rôl Cadeirydd y Fainc er mwyn ei hwyluso ac i annog mwy o ynadon i ymgeisio am y swydd? Os ydych chi'n meddwl bod newidiadau eraill a allai annog mwy o bobl i wneud cais am y rôl, cofiwch eu rhestru. Rhowch resymau am eich ateb.**

**C17: Ydych chi'n meddwl y dylid rhannu'r rôl arwain yn ddwy: un yn rheoli busnes y llys a'r llall yn goruchwylio materion bugeiliol a lles? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C18: Sut ydych chi'n meddwl y gellid defnyddio Dirprwy Gadeiryddion y Fainc yn well i rannu cyfrifoldebau'r Cadeirydd? Er enghraifft, ydych chi'n meddwl y dylid cael rheolau neu ganllawiau ar gyfer faint o ddirprwyon y dylid eu penodi, yn unol â nifer yr ynadon neu'r llysoedd sydd mewn mainc? A/neu, a ddylid cael canllawiau neu reolau ar gyfer pa agweddau ar gyfrifoldebau'r Cadeirydd ddylai gael eu pasio i ddirprwyon? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C19: Ydych chi'n ffafrio un o'r opsiynau o dan i a ii uchod? Hynny yw, ydych chi'n meddwl y byddai'n well rhannu rôl Cadeirydd y Fainc yn swyddogaethau sy'n ymdrin â busnes y llys a materion bugeiliol, ynteu ydych chi'n meddwl y dylid gwneud gwell defnydd o ddirprwyon i rannu'r baich gwaith? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C20: Ydych chi'n meddwl y gallem wneud unrhyw newidiadau eraill i rôl Cadeirydd y Fainc i annog mwy o ynadon i ymgeisio am y swydd hon? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C21: Faint o ynadon ydych chi'n meddwl y byddai'n rhesymol i un arweinydd eu goruchwylio? Rhowch ffigur ar gyfer y canlynol: (a) arweinwyr a fyddai'n goruchwylio busnes barnwrol yn unig; (b) arweinwyr a fyddai'n goruchwylio materion bugeiliol yn unig; (c) arweinwyr a fyddai'n goruchwylio busnes barnwrol a materion bugeiliol. Rhowch resymau am eich ateb.**

**C22: Ydych chi'n meddwl y dylai arweinwyr lleol yr ynadon (Cadeirydd y Fainc; Dirprwy Gadeirydd y Fainc; Cadeirydd y Panel Teulu; Cadeirydd y Panel Ieuenctid a Dirprwyon y Paneli Teulu/Ieuenctid) gael eu hethol ynteu eu dethol, neu gyfuniad o'r ddau? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C23: Os ydych chi'n credu y dylid ethol rhai arweinwyr a dethol rhai eraill, nodwch y mathau o rolau y dylid defnyddio proses ethol ar eu cyfer a pha rai y dylid defnyddio proses ddethol ar eu cyfer.**

**C24: Oes gennych chi unrhyw syniadau eraill ynghylch sut y gellid gwella'r strwythur arweinyddiaeth leol sy'n bodoli ar hyn o bryd? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C25: Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am y cynigion ar gyfer arweinyddiaeth yn y bennod hon sy'n ymwneud â'r systemau ieuenctid neu deulu?**

**C26: Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau'r 45 TAAAC i 14, gydag un TAAAC Troseddol ac un TAAAC Teulu ar gyfer pob un o'r saith cylchdaith farnwrol a Llundain? Rhowch resymau am eich ateb. Os ydych chi'n anghytuno, sut ydych chi'n meddwl y dylid trefnu TAAACau yn ddaearyddol?**

**C27: Oes gennych chi syniadau ynghylch sut y gellid strwythuro TAAACau mwy gan ddefnyddio is-bwyllgorau, gweithgorau neu fecanweithiau eraill? Beth allai'r is-strwythurau hynny ei gynnwys? Rhowch wybod i ni beth yw eich syniadau.**

**C28: Ydych chi'n cytuno y dylai partner dysgu rhanbarthol y Coleg Barnwrol fod yn aelod statudol o'r TAAACau? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C29: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am aelodaeth y TAAACau? Os oes, rhowch fanylion.**

**C30: Ydych chi'n meddwl y dylai ynadon sy'n aelodau o'r TAAAC gael eu hethol ynteu eu dewis yn uniongyrchol? Rhowch resymau am eich ateb.**


**C31: A ddylid cyfuno'r JTAAACau (troseddol) a'r FTAAACau (teulu) ymhellach i greu un TAAAC ar gyfer pob cylchdaith, a fyddai'n cynnwys materion teulu a throseddol? Rhowch resymau am eich ateb.**

**C32: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y TAAACau? Os oes, rhowch fanylion.**

**Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.**


# Atodiad A: Mapiau sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol presennol a'r meinciau arfaethedig

## Cylchdeithiau Cymru a Lloegr (a Llundain)[33]




[33] Mae'r mapiau hyn yn adlewyrchu dosbarthiad y llysoedd ac achosion ar adeg drafftio'r ddogfen hon. Er nad yw'r llysoedd teulu wedi'u trefnu'n ôl LJA/mainc (ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y tablau o gyfansoddiad y fainc/LJA), mae lleoliadau lle gall ynadon teulu gael eu haseinio i achosion wedi'u cynnwys ar y map.

# Rhanbarth Llundain[34]





34 Sylwer nad yw Canolfan Llysoedd Sifil a Theulu Barnet yn cael ei dangos ar fap Llundain gan ei bod ar gau ar hyn o bryd oherwydd gwaith adeiladu; bydd y llys yn ailagor unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Nid yw Llys Ynadon Belmarsh wedi'i restru yn nhablau cyfansoddiad LJA/Mainc oherwydd nid yw ynadon fel arfer yn cael eu lleoli yno.

Er ei bod yn ymddangos fel petai Llys Ynadon Hendon yn rhan o Ardal Cyfiawnder Lleol/Mainc Gogledd Orllewin Llundain, yn dechnegol mae'n rhan o Ardal Cyfiawnder Lleol/Mainc Canol Llundain.


# De-ddwyrain Lloegr





## Allwedd

- Ynadon
- Teulu
- Ieuenctid
- Ffin y fainc
- Ffin yr ardal gyfiawnder lleol


# Canolbarth Lloegr



# Gogledd-ddwyrain Lloegr




# Gogledd-orllewin Lloegr





## Allwedd

- Ynadon
- Teulu
- Ieuenctid
- Ffin y fainc
- Ffin yr ardal gyfiawnder lleol

# De-orllewin Lloegr



# Cymru


Llandudno
Prestatyn
Gogledd-ddwyrain Cymru (Yr Wyddgrug)
Caernarfon
Wrecsam
Y Trallwng
Aberystwyth
Llandrindod
Merthyr Tudful
Caerfyrddin
Hwlffordd
Llanelli
Cwmbrân
Casnewydd
Abertawe
Port Talbot
Caerdydd
Coed-duon
Allwedd
Ynadon
Teulu
Ieuenctid
Ffin y fainc
Ffin yr ardal gyfiawnder lleol

# Atodiad B: Tabl yn amlinellu'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol a chyfansoddiad arfaethedig y meinciau (Disgrifiad testunol o fap(iau) ardaloedd cyfiawnder lleol)

| Cylchdaith | Ardal cyfiawnder lleol bresennol | Llysoedd | Mainc Arfaethedig | Llysoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Llundain** | Canol Llundain | San Steffan, Hendon, Dinas Llundain | Canol Llundain | San Steffan, Hendon, Dinas Llundain |
| | Dwyrain Llundain | Stratford, Tafwys | Dwyrain Llundain | Stratford, Tafwys |
| | Gogledd-ddwyrain Llundain | Barkingside, Romford | Gogledd-ddwyrain Llundain | Barkingside, Romford |
| | Gogledd Llundain | Highbury Corner | Gogledd Llundain | Highbury Corner |
| | Gogledd-orllewin Llundain | Willesden (Brent) | Gogledd-orllewin Llundain | Willesden (Brent) |
| | De-ddwyrain Llundain | Bexley, Bromley | De-ddwyrain Llundain | Bexley, Bromley |
| | De Llundain | Croydon | De Llundain | Croydon |
| | De-orllewin Llundain | Lavender Hill (De-orllewin), Wimbledon | De-orllewin Llundain | Lavender Hill (De-orllewin), Wimbledon |
| | Gorllewin Llundain | Ealing, Uxbridge | Gorllewin Llundain | Ealing, Uxbridge |
| **De-ddwyrain Lloegr** | Swydd Bedford | Bedford, Luton | Swydd Bedford | Bedford, Luton |
| | Berkshire | Reading, Slough, | Dyffryn Tafwys | Reading, Slough, Milton Keynes, |
| | Swydd Buckingham | Milton Keynes, Wycombe | | |

| Cylchdaith | Ardal cyfiawnder lleol bresennol | Llysoedd | Mainc Arfaethedig | Llysoedd |
|---|---|---|---|---|
| | Swydd Rydychen | Rhydychen | | Wycombe, Rhydychen |
| | Swydd Gaergrawnt | Caergrawnt, Huntingdon, Peterborough | Swydd Gaergrawnt | Caergrawnt, Huntingdon, Peterborough |
| | Canol a Gorllewin Swydd Hertford | Hatfield, St Albans | Swydd Hertford | Hatfield, St Albans, Stevenage, |
| | Gogledd a Dwyrain Swydd Hertford | Stevenage | | |
| | Canol Caint | Maidstone, Sevenoaks | Caint | Maidstone, Sevenoaks, Caergaint, Folkestone, Margate (Thanet), Medway (Chatham), |
| | Dwyrain Caint | Canterbury, Folkestone, Margate (Thanet) | | |
| | Gogledd Caint | Medway (Chatham) | | |
| | Norfolk | Great Yarmouth, King's Lynn, Norwich | Norfolk | Great Yarmouth, King's Lynn, Norwich |
| | Gogledd Essex | Chelmsford, Colchester, | Essex | Chelmsford, Colchester, Basildon, Southend on Sea |
| | De Essex | Basildon, Southend on Sea | | |
| | Suffolk | Ipswich, Bury St. Edmunds | Suffolk | Ipswich, Bury St. Edmunds |
| | Surrey | Guildford, Staines | Surrey | Guildford, Staines |
| | Sussex (Canol) | Brighton | Sussex | Brighton, Hastings, Crawley, Horsham, Worthing |
| | Sussex (Dwyrain) | Hastings | | |
| | Gorllewin Sussex | Crawley, Horsham, Worthing | | |

| Cylchdaith | Ardal cyfiawnder lleol bresennol | Llysoedd | Mainc Arfaethedig | Llysoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Canolbarth Lloegr** | Birmingham a Solihull | Birmingham | Gorllewin Canolbarth Lloegr | Birmingham, Dudley, Walsall, Wolverhampton, Coventry |
| | Black Country | Dudley, Walsall, Wolverhampton, | | |
| | Coventry a Swydd Warwick (Coventry) | Coventry | | |
| | Coventry a Swydd Warwick (Swydd Warwick) | Leamington Spa, Nuneaton | Swydd Warwick | Leamington Spa, Nuneaton |
| | Gogledd Swydd Derby | Chesterfield | Swydd Derby | Chesterfield, Derby |
| | De Swydd Derby | Derby | | |
| | Swydd Nottingham | Mansfield (Rosemary St), Nottingham | Swydd Nottingham | Mansfield (Rosemary St), Nottingham |
| | Swydd Northampton | Northampton, Wellingborough | Swydd Northampton | Northampton, Wellingborough |
| | Swydd Henffordd | Swydd Henffordd | Gorllewin Mersia | Henffordd, Telford, Kidderminster, Redditch, Caerwrangon |
| | Swydd Amwythig | Telford | | |
| | Swydd Gaerwrangon | Kidderminster, Redditch, Caerwrangon | | |
| | Swydd Gaerlŷr a Rutland | Caerlŷr, Loughborough | Caerlŷr | Caerlŷr, Loughborough |
| | Swydd Lincoln | Boston, Lincoln | Swydd Lincoln | Boston, Lincoln |
| | Swydd Stafford | Cannock, Newcastle under Lyme | Swydd Stafford | Cannock, Newcastle under Lyme |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | Cleveland | Teesside | Cleveland | Teesside |

| Cylchdaith | Ardal cyfiawnder lleol bresennol | Llysoedd | Mainc Arfaethedig | Llysoedd |
|---|---|---|---|---|
| | Swydd Durham a Darlington | Newton Aycliffe, Peterlee | Durham | Newton Aycliffe, Peterlee |
| | Humber | Beverley, Bridlington, Grimsby, Hull a Holderness | Glannau Humber | Beverley, Bridlington, Grimsby, Hull a Holderness |
| | Gogledd Northumbria | Berwick upon Tweed, Canol a De-ddwyrain Northumberland, Newcastle Upon Tyne, Gogledd Tyneside | Northumbria | Berwick upon Tweed, Canol a De-ddwyrain Northumberland, Newcastle Upon Tyne, Gogledd Tyneside, Gateshead, Llysoedd Barn De Tyneside, Sunderland a Houghton-le-Spring |
| | De Northumbria | Gateshead, Llysoedd Barn De Tyneside, Sunderland a Houghton-le-Spring | | |
| | Gogledd Swydd Efrog | Harrogate a Skipton, Scarborough, Efrog | Gogledd Swydd Efrog | Harrogate a Skipton, Scarborough, Efrog |
| | De Swydd Efrog | Barnsley, Doncaster, Sheffield | De Swydd Efrog | Barnsley, Doncaster, Sheffield |
| | Gorllewin Swydd Efrog | Bradford, Kirklees, Leeds | Gorllewin Swydd Efrog | Bradford, Kirklees, Leeds |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | Bolton | Bolton | Manceinion Fwyaf | Bolton, Dinas Manceinion, Stockport, Tameside, Wigan |
| | Manceinion a Salford | Dinas Manceinion | | |
| | Stockport | Stockport | | |
| | Tameside | Tameside | | |

| Cylchdaith | Ardal cyfiawnder lleol bresennol | Llysoedd | Mainc Arfaethedig | Llysoedd |
|---|---|---|---|---|
| | Wigan a Leigh | Wigan | | |
| | Swydd Gaer | Caer, Crewe, Gogledd Swydd Gaer (Warrington) | Swydd Gaer | Caer, Crewe, Gogledd Swydd Gaer (Warrington) |
| | Swydd Gaerhirfryn | Blackburn, Blackpool, Burnley, Lancaster, Preston | Swydd Gaerhirfryn | Blackburn, Blackpool, Burnley, Lancaster, Preston |
| | Glannau Mersi | Birkenhead, Bootle, Lerpwl | Glannau Mersi | Birkenhead, Bootle, Lerpwl |
| | Gogledd a Gorllewin Cumbria | Carlisle, Workington | Cumbria | Carlisle, Workington, Barrow in Furness |
| | De Cumbria | Barrow in Furness | | |
| **De-orllewin Lloegr** | Avon a Gwlad yr Haf | Caerfaddon, Bryste, Taunton, Weston Super Mare, Yeovil | Avon a Gwlad yr Haf | Caerfaddon, Bryste, Taunton, Weston Super Mare, Yeovil |
| | Cernyw | Bodmin, Ynysoedd Sili, Truro | Cernyw | Bodmin, Ynysoedd Sili, Truro |
| | Dorset | Poole, Weymouth | Dorset | Poole, Weymouth |
| | Dwyrain Hampshire | Portsmouth | Dwyrain Hampshire | Portsmouth |
| | Swydd Gaerloyw | Cheltenham (St George's Road) | Swydd Gaerloyw | Cheltenham (St George's Road) |
| | Ynys Wyth | Newport (Ynys Wyth) | Ynys Wyth | Newport (Ynys Wyth) |
| | Gogledd a Dwyrain Dyfnaint | Barnstaple, Caerwysg | Dyfnaint | Barnstaple, Caerwysg, Newton Abbot, Plymouth |
| | De a Gorllewin Dyfnaint | Newton Abbot, Plymouth | | |

| **Cylchdaith** | **Ardal cyfiawnder lleol bresennol** | **Llysoedd** | **Mainc Arfaethedig** | **Llysoedd** |
|---|---|---|---|---|
| | Gogledd Hampshire | Aldershot, Basingstoke | Gogledd Hampshire | Aldershot, Basingstoke |
| | Gorllewin Hampshire | Southampton (The Avenue) | Gorllewin Hampshire | Southampton (The Avenue) |
| | Wiltshire | Salisbury (Guildhall), Swindon | Wiltshire | Salisbury (Guildhall), Swindon |
| **Cymru** | Caerdydd | Caerdydd | De Cymru | Caerdydd, Merthyr Tudful, Abertawe |
| | Canolbarth Cymru (ardal De Cymru) | Merthyr Tudful | | |
| | Abertawe | Abertawe | | |
| | Ceredigion | Aberystwyth | Ceredigion | Aberystwyth |
| | Gwent | Cwmbrân, Casnewydd (Usk Way) | Gwent | Cwmbrân, Casnewydd (Usk Way) |
| | Llanelli | Llanelli | Llanelli | Llanelli |
| | Canolbarth Cymru (Ardal Dyfed Powys) | Llandrindod | Canolbarth Cymru | Llandrindod |
| | Sir Drefaldwyn | Y Trallwng | Sir Drefaldwyn | Y Trallwng |
| | Gogledd Canol Cymru | Llandudno | Gogledd Cymru | Llandudno, Gogledd-ddwyrain Cymru, Wrecsam, Caernarfon |
| | Gogledd-ddwyrain Cymru | Gogledd-ddwyrain Cymru, Wrecsam | | |
| | Gogledd-orllewin Cymru | Caernarfon | | |
| | Sir Benfro | Hwlffordd | Sir Benfro | Hwlffordd |

# Atodiad C: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer y fainc

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae ardaloedd cyfiawnder lleol yn strwythur cyfreithiol. Mae sawl cyfeiriad atynt mewn deddfwriaeth. | Strwythurau gweinyddol yn unig fydd y meinciau. Ni fydd ganddynt rôl sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth. | Newid technegol a chyfreithiol.<br><br>Ychydig iawn o newid, os o gwbl, i brofiad ynadon. |
| Swyddogaethau ardaloedd cyfiawnder lleol yw: recriwtio, lleoli, dyrannu achosion a gweinyddu dirwyon, gorchmynion dedfrydau gohiriedig a gorchmynion cymunedol. | Dyma swyddogaethau'r meinciau hefyd: recriwtio, lleoli, dyrannu achosion a gweinyddu dirwyon, gorchmynion dedfryd ohiriedig a gorchmynion cymunedol. | Dim newid.<br><br>Bydd pob ynad yn parhau i gael ei neilltuo i fainc. |
| Mae ffin gyfreithiol galed ardaloedd cyfiawnder lleol yn ei gwneud yn anodd iawn symud achosion, ynadon a chosbau rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol. Er enghraifft, i symud dirwyon, mae angen gorchymyn 'trosglwyddo dirwyon', ac mae 70k o'r rhain yn cael eu prosesu bob blwyddyn. Mae hyn yn cyflwyno heriau lle mae gan droseddwyr gosbau mewn sawl ardal neu lle maent yn dymuno talu cosb mewn ardal wahanol i'r ardal lle cawsant y gosb. Mae materion tebyg yn bodoli ar gyfer gorchmynion dedfryd ohiriedig a gorchmynion cymunedol, gan gynnwys gorchmynion adsefydlu ieuenctid. | Gan na fydd meinciau'n strwythur cyfreithiol, bydd y ffiniau caled hyn yn diflannu. Bydd hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol i GLlTEF, ac yn creu system fwy cadarn a hyblyg.<br><br>Bydd unrhyw lys yn y wlad yn gallu gweinyddu cosb yn awtomatig. Bydd hyn yn rhyddhau amser staff ac yn lleihau oedi. Dylai hyn, yn ei dro, gyfrannu at leihau'r ôl-groniadau yn system y llysoedd. Bydd GLlTEF yn gallu cael darlun cenedlaethol o droseddwyr. | Newid sylweddol i weinyddiaeth y llysoedd.<br><br>Ychydig iawn o newid, os o gwbl, i brofiad ynadon. |

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Gall ynadon eistedd mewn ardal cyfiawnder lleol arall yn eu cylchdaith yn hawdd pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'n hawdd symud rhestrau achosion rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol i grwpio achosion tebyg gyda'i gilydd lle ceir arbenigedd. | Bydd rhestrau achosion ac ynadon yn cael eu symud rhwng meinciau pan fo angen, ac yn achos yr ynadon, pan fyddant yn hapus gyda hynny.<br>(Gweler Pennod 2 am ragor o fanylion.) | Dim newid ymarferol. |
| Mae'n bosibl, er yn fwy heriol, symud ynadon rhwng cylchdeithiau na rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol. | Bydd yn syml symud ynadon rhwng cylchdeithiau pan fo angen a phan fyddant yn dymuno (e.e. pan fydd ynad yn byw wrth ymyl ffin cylchdaith). | Newid cymharol i weinyddiaeth y llysoedd.<br>Newid cymharol i rai ynadon sy'n byw yn agos at ffin cylchdaith.<br>Ychydig iawn o newid i ynadon eraill, os o gwbl. |

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae 75 o ardaloedd cyfiawnder lleol a phob un yn cynnwys rhwng un a phum llys. | Bydd 58 o feinciau, a'r rheini'n cynnwys rhwng un a saith llys.<br><br>Bydd y rhan fwyaf o feinciau'n rhannu ffiniau'r ardaloedd cyfiawnder troseddol. Mae ardaloedd cyfiawnder troseddol yn cyfateb i ardaloedd heddluoedd, ac yn y rhan fwyaf o achosion, i siroedd. Mewn rhai ardaloedd, mae'r ardaloedd cyfiawnder troseddol yn rhannu ffiniau â'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol, a fydd yr un fath â'r rheini a ddefnyddir mewn meinciau. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill, bydd grwpiau llysoedd presennol yr ardaloedd cyfiawnder lleol yn uno i ffurfio meinciau mwy sy'n rhannu ffiniau ag ardaloedd cyfiawnder troseddol. Bydd eithriadau nodedig lle byddai'r ardaloedd cyfiawnder troseddol yn rhy fawr i ffurfio meinciau, lle bydd meinciau'n rhannu ffiniau â'r ardaloedd cyfiawnder lleol presennol.<br><br>Gweler atodiadau B ac C am fanylion llawn y meinciau arfaethedig.<br><br>(Bydd y cynigion ar gyfer lleoli ym Mhennod 2 yn sicrhau, hyd yn oed os yw'r meinciau'n fwy na'r ardaloedd cyfiawnder lleol, na fydd disgwyl i ynadon deithio llawer mwy na'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd.) | Newid sylweddol mewn deddfwriaeth.<br><br>Newid bach i brofiad yr ynad (gweler Pennod 2 am ragor o fanylion). |

# Atodiad D: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer recriwtio

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae ynadon yn gwneud cais am swydd wag yn eu hardal cyfiawnder lleol. Maent yn cael eu penodi yn genedlaethol a'u neilltuo i'r ardal cyfiawnder lleol y gwnaethant gais iddi. | Bydd ynadon yn gwneud cais am swydd wag yn eu mainc. Byddant yn cael eu penodi'n genedlaethol ac yn cael eu neilltuo i'r fainc y gwnaethant gais iddi, ac o fewn hon i 'lys cartref'. | Ychydig iawn o newid, os o gwbl, i brofiad ynadon. |
| Un o 23 Pwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Recriwtio Ynadon Heddwch sy'n adolygu ac yn cyfweld ynadon. Mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol yn recriwtio i un neu fwy o ardaloedd cyfiawnder lleol. | Yn hytrach na recriwtio i ardal cyfiawnder lleol, bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn recriwtio i fainc.<br><br>Felly, bydd angen rhywfaint o newid technegol i newid yr ardaloedd daearyddol y mae'r Pwyllgorau Ymgynghorol yn gyfrifol amdanynt. | Newid technegol cymharol.<br><br>Dim newid i brofiad yr ynadon. |
| Penodir ynadon ieuenctid gan y TAAACau yn dilyn hyfforddiant pellach. | Byddai hyn yn parhau. | Dim newid. |
| Mae ynadon teulu naill ai'n gwneud cais am y rôl hon gan ddefnyddio proses recriwtio ar wahân, neu'n ynadon troseddol a benodir gan y TAAACau yn dilyn hyfforddiant pellach. | Byddai hyn yn parhau. | Dim newid. |

# Atodiad E: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer lleoli

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae pob ynad yn cael ei neilltuo i ardal cyfiawnder lleol. | Bydd pob ynad yn cael ei neilltuo i fainc, ac o fewn hyn, i 'lys cartref'. | Newid technegol.<br>Ychydig iawn o newid, os o gwbl, i brofiad ynadon. |
| Dyrennir ynadon i achosion yn unrhyw le yn eu hardal cyfiawnder lleol.<br>Nid oes rheolau swyddogol ynghylch llysoedd cartref na chanllawiau canrannol ar hyn o bryd. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ynadon yn treulio'r rhan fwyaf o'u heisteddiadau mewn un llys, neu 'brif leoliad'. | Bydd ynadon yn cael eu dyrannu i'w llys cartref ar gyfer 60–80% o'u hachosion. | Dim o bwys yn ymarferol. Mae hyn yn bennaf yn achos o godeiddio beth sy'n digwydd yn barod. |
| Mae disgwyl i ynadon eistedd yn unrhyw le yn eu hardal cyfiawnder lleol.<br>Yn ymarferol, bydd arweinwyr yn ystyried amseroedd teithio ynadon wrth wneud trefniadau rhestru, ond nid oes rheolau swyddogol ynghylch pa mor bell o'u cartref y dylent eistedd. | isgwylir i ynadon dreulio'r 20–40% sy'n weddill o'u heisteddiadau yn eu mainc.<br>Dim ond mewn llysoedd sydd o fewn amser teithio rhesymol i gartref neu gyfeiriad gwaith yr ynad fydd hyn.<br>Ystyrir taith resymol fel dim mwy na 90 munud bob ffordd, mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. | Bach iawn |

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae addasiadau rhesymol yn berthnasol i unrhyw drefniadau eistedd. Mae trefniadau eistedd hyblyg yn cael eu trefnu i gefnogi unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig ac anghenion eraill.<br><br>Os oes gan ynad nodwedd warchodedig sy'n golygu ei bod yn anodd bodloni'r disgwyliadau hyn ar gyfer eistedd, yna gellir cytuno ar drefniant gwahanol i ddiwallu ei anghenion. | Byddai hyn yn parhau. | Dim |
| Gellir symud ynadon rhwng ardaloedd cyfiawnder lleol lle mae angen ac os yw'r ynad yn fodlon eistedd y tu hwnt i'w ardal cyfiawnder lleol.<br><br>Fodd bynnag, mae'n fwy heriol symud ynadon y tu hwnt i'w cylchdaith, hyd yn oed pan fyddant yn byw'n agos iawn at ffin cylchdaith. | Byddai gan ynadon yr **opsiwn** o dreulio rhai o'u 20–40% o eisteddiadau y tu allan i'w mainc a'r tu allan i'w cylchdaith.<br><br>Dim ond pan fydd angen lleol y bydd hyn yn digwydd, a phan fydd yr ynad yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, os yw ynad yn byw ger y ffin a bod ei lys ieuenctid agosaf ar yr ochr arall. | Newid bach iawn i'r ynadon hynny sy'n byw yn agos at ffin cylchdaith.<br><br>Ychydig iawn o newid, os o gwbl, i ynadon eraill. |

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Bydd ynadon teulu yn cael eu neilltuo i ardal cyfiawnder lleol ar ôl cael eu penodi.<br><br>Ardaloedd panel teulu sy'n goruchwylio'r gwaith o ddyrannu achosion/llysoedd.<br><br>Trefnir yr ardaloedd hyn naill ai o amgylch ardaloedd Barnwr Teulu Dynodedig, neu o amgylch un neu fwy o ardaloedd cyfiawnder lleol.<br><br>Os yw ardal panel teulu yn fwy nag ardal cyfiawnder lleol ynad, gofynnir i'r ynad a yw'n fodlon eistedd ar draws yr ardal panel teulu ynteu dim ond o fewn yr ardal cyfiawnder lleol. | Bydd ynadon teulu yn cael eu neilltuo i fainc ar ôl cael eu penodi.<br><br>Ardaloedd panel teulu sy'n goruchwylio'r gwaith o ddyrannu achosion/llysoedd.<br><br>Mewn achosion lle mae ardaloedd cyfiawnder lleol yn uno i ffurfio mainc fwy, dylai'r ardal panel teulu sy'n cyd-fynd â'r ardal cyfiawnder lleol bresennol gael eu huno hefyd er mwyn parhau i gyd-fynd â'r fainc newydd. Fel arall, ni fydd ardaloedd paneli teulu yn newid.<br><br>Bydd y rheolau uchod yn berthnasol i ynadon teulu, lle byddent yn cael eu neilltuo i lys cartref. Disgwylir iddynt eistedd yno am 60%–80% o'u hachosion, gyda gweddill yr eisteddiadau yng ngweddill y fainc neu, os ydynt yn cytuno, yn ardal y panel teulu. Ni fydd disgwyl iddynt deithio mwy na 90 munud bob ffordd i eistedd. | Newid bach i ynadon teulu os yw ardal y panel teulu'n mynd yn fwy. Fodd bynnag, dylai cynigion y llys cartref sicrhau na ofynnir i ynadon teulu deithio'n llawer pellach i eistedd nag y maent ar hyn o bryd. |

| Ardaloedd cyfiawnder lleol – y system bresennol | Y system arfaethedig ar gyfer y fainc | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Fel rheol, mae gan ynadon ieuenctid brif leoliad lle maent yn treulio'r rhan fwyaf o'u heisteddiadau. | Bydd ynadon ieuenctid yn cael eu neilltuo i 'lys ieuenctid cartref' a allai fod yn wahanol i 'lys cartref' ynad ar gyfer gwrandawiadau troseddol oedolion. Bydd y ddau lys yn yr un ardal mainc lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Oni bai fod angen busnes barnwrol, a bod yr ynad yn dymuno gwneud hynny, ni fydd ynadon ieuenctid yn cael eu lleoli y tu hwnt i'w mainc. Bydd amser eu taith bob ffordd yn aros o fewn 90 munud. | Ychydig iawn o newid i brofiad ynad ieuenctid. Codeiddio'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol yn bennaf. |

# Atodiad F: Crynodeb o'r cynigion ar gyfer arweinyddiaeth

| Y system bresennol | Newidiadau arfaethedig | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae gan bob un o'r 75 ardal cyfiawnder lleol Gadeirydd Mainc, sy'n gyfrifol am arwain yr ynadaeth yn eu hardal cyfiawnder lleol. | Byddai rôl Cadeirydd y Fainc yn parhau, a byddai newid technegol bach gan y byddai Cadeiryddion y Fainc yn goruchwylio mainc, yn hytrach nag ardal cyfiawnder lleol. | Dim llawer o newid. |
| Mae Cadeiryddion Mainc yn gyfrifol am fusnes y llys ac mae ganddynt gyfrifoldeb bugeiliol wedi'i ddirprwyo gan yr Arglwyddes Brif Ustus ar gyfer ynadon yn eu hardal cyfiawnder lleol. | Gellid rhannu cylch gwaith y rôl i'w gwneud yn haws i ddeiliaid y swyddi ei reoli. Byddai hyn yn golygu rhannu'r rôl yn ddwy: rheoli busnes y llys; ac arweinyddiaeth fugeiliol a lles. | Newid sylweddol.<br>Byddai swyddogaethau a chyfrifoldebau Cadeirydd y Fainc yn cael eu rhannu rhwng dau arweinydd. |
| Gallai Cadeiryddion Mainc ddewis cymaint o Ddirprwyon ag y dymunant i'w cynorthwyo gyda'u dyletswyddau. | Er mwyn gwneud gwell defnydd o ddirprwyon ac annog Cadeiryddion y Meinciau i ddirprwyo mwy o'u llwyth gwaith, rydym wedi gofyn i ymatebwyr a ddylid cael rheolau neu ganllawiau ynghylch faint o ddirprwyon y dylid eu penodi a/neu i ddiffinio beth fydd yn dod o fewn cylch gwaith y dirprwyon. | Newid cymharol.<br>Nid yw rhai ardaloedd yn penodi digon o ddirprwyon neu nid ydynt yn penodi dirprwyon o gwbl. Gallai'r newidiadau hyn olygu bod dirprwyon yn cael eu defnyddio'n well. |

| Y system bresennol | Newidiadau arfaethedig | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae Cadeirydd y Fainc; Dirprwy Gadeirydd y Fainc; Cadeirydd y Panel Teulu; Cadeirydd y Panel Ieuenctid a Dirprwy'r Panel Teulu/Ieuenctid yn cael eu penodi drwy etholiad blynyddol. Gall Cadeirydd y Fainc wasanaethu yn ei rôl am hyd at dair blynedd yn olynol a gall wasanaethu am hyd at dair blynedd arall ar ôl bwlch o chwe blynedd. | Byddwn yn gofyn i ymatebwyr ystyried a ddylid ethol ynteu ddethol y rolau hyn neu a ddylent fod yn hybrid. | Newid cymharol os defnyddir proses ddewis neu hybrid. |
| Mae Cadeiryddion a Dirprwyon Paneli Ieuenctid a Theulu yn goruchwylio rhai elfennau o arweinyddiaeth ynadon. | Nid ydym yn cynnig newid strwythurau nac arweinyddiaeth y paneli ieuenctid na'r paneli teulu. | Dim newid. |

# Atodiad G: Crynodeb o'r Cynigion ar gyfer Hyfforddiant a TAAACau

| Y system bresennol | Newidiadau arfaethedig | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Bydd TAAACau yn goruchwylio gwaith hyfforddi, cymeradwyo, awdurdodi ac arfarnu ar gyfer ynadon yn yr ardaloedd cyfiawnder lleol sy'n ffurfio'r ardal TAAAC honno. | Bydd hyn yn parhau yn y system arfaethedig ar gyfer y fainc, ond bydd y TAAACau yn goruchwylio'r meinciau sy'n dod o dan eu hardal nhw yn hytrach na'r ardaloedd cyfiawnder lleol. | Newid technegol bach. |
| Mae pob TAAAC yn cynnwys rhwng 6 a 24 o ynadon; cynrychiolydd o Gymdeithas yr Ynadon; a chynrychiolydd o GLlTEF. | Bydd angen i ynadon sy'n aelodau o'r TAAACau ddod o ardal ddaearyddol ddiwygiedig.<br>Rydym yn cynnig gwneud partner dysgu'r Coleg Barnwrol yn aelod statudol. | Newid bach. |
| Ar hyn o bryd, mae 23 JTAAAC a 22 FTAAAC. | Rydym yn cynnig lleihau nifer y TAAACau i 14: gydag un yn ymdrin â materion troseddol/ieuenctid a'r llall yn ymdrin â materion teulu ym mhob cylchdaith farnwrol a Llundain. | Newid cymharol.<br>Byddai hyn yn lleihau nifer aelodau'r TAAAC mewn cylchdaith, ond byddem yn sicrhau bod pob mainc newydd yn cael ei chynrychioli'n briodol. |
| Ceir proses dau gam ar gyfer penodi ynadon ac ynadon teulu'n aelodau o bob TAAAC, a hynny gan ddefnyddio Panel Dethol. Caiff ynadon y Panel Dethol eu hethol gan eu meinciau cyfansoddol. | Felly, rydym yn gwahodd ymatebwyr i ystyried a ddylai ynadon sy'n aelodau o'r TAAAC gael eu hethol ynteu eu dethol yn uniongyrchol, gan ddileu'r angen am Baneli Dethol. | Newid cymharol. |

| Y system bresennol | Newidiadau arfaethedig | Graddau'r newid a ddisgwylir |
|---|---|---|
| Mae dau fath o bwyllgor; y JTAAAC ar gyfer materion troseddol, gan gynnwys materion y llys ieuenctid, a'r FTAAAC ar gyfer materion Teulu. | Rydym yn cynnig cyfuno'r pwyllgorau troseddol/ieuenctid a theulu i rannu cyfleoedd ac arferion da ar draws y ddwy awdurdodaeth, a chael gwared ar ddyblygu.<br><br>Byddwn yn dal i greu cynlluniau hyfforddi ar wahân ar gyfer materion teulu a throsedd er mwyn sicrhau bod materion sy'n benodol i bob awdurdodaeth yn cael eu hystyried. | Newid cymharol. |

# Atodiad H: Pwyllgorau Ymgynghorol ar Recriwtio, wedi'u rhannu yn ôl rhanbarth, ardal

| Rhanbarth | Ardal y Pwyllgor Ymgynghorol ar Recriwtio | Ardal Cyfiawnder Lleol | Mainc Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Llundain** | Llundain | Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Llundain (Canol Llundain, Dwyrain Llundain, Gogledd-ddwyrain Llundain, Gogledd Llundain, Gogledd-orllewin Llundain, De-ddwyrain Llundain, De Llundain, De-orllewin Llundain, Gorllewin Llundain) | Ardaloedd Cyfiawnder Lleol Llundain (Canol Llundain, Dwyrain Llundain, Gogledd-ddwyrain Llundain, Gogledd Llundain, Gogledd-orllewin Llundain, De-ddwyrain Llundain, De Llundain, De-orllewin Llundain, Gorllewin Llundain) |
| **Canolbarth Lloegr** | Birmingham a Solihull, Black Country, Coventry a Swydd Warwick | Birmingham a Solihull, Black Country, Coventry a Swydd Warwick | Gorllewin Canolbarth Lloegr, Swydd Warwick |
| | Swydd Derby a Swydd Nottingham | Gogledd Swydd Derby, De Swydd Derby, Swydd Nottingham | Swydd Derby, Swydd Nottingham |
| | Swydd Northampton, Swydd Gaerlŷr a Rutland a Swydd Lincoln | Swydd Northampton, Swydd Gaerlŷr a Rutland, Swydd Lincoln | Swydd Northampton, Caerlŷr, Swydd Lincoln |
| | Gorllewin Mercia a Swydd Stafford | Swydd Henffordd, Swydd Amwythig, Swydd Gaerwrangon, Swydd Stafford | Gorllewin Mercia, Swydd Stafford |

| Rhanbarth | Ardal y Pwyllgor Ymgynghorol ar Recriwtio | Ardal Cyfiawnder Lleol | Mainc Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | Cleveland, Swydd Durham a Darlington | Cleveland, Swydd Durham a Darlington | Cleveland, Durham |
| | Humber a De Swydd Efrog | Humber, De Swydd Efrog | Glannau Humber, De Swydd Efrog |
| | Gogledd a Gorllewin Swydd Efrog | Gogledd Swydd Efrog, Gorllewin Swydd Efrog | Gogledd Swydd Efrog, Gorllewin Swydd Efrog |
| | Northumbria | Gogledd Northumbria, De Northumbria | Northumbria |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | Swydd Gaer a Glannau Mersi | Swydd Gaer, Glannau Mersi | Swydd Gaer, Glannau Mersi |
| | Manceinion Fwyaf | Bolton, Manceinion a Salford, Stockport, Tameside, Wigan a Leigh | Manceinion Fwyaf |
| | Cumbria a Swydd Gaerhirfryn | Swydd Gaerhirfryn, Gogledd a Gorllewin Cumbria, De Cumbria | Cumbria, Swydd Gaerhirfryn |
| **De-ddwyrain Lloegr** | Swydd Bedford a Swydd Hertford | Swydd Bedford, Canol a Gorllewin Swydd Hertford, Gogledd a Dwyrain Swydd Hertford | Swydd Bedford, Swydd Hertford |
| | Swydd Gaergrawnt ac Essex | Swydd Gaergrawnt, Gogledd Essex, De Essex | Swydd Gaergrawnt, Essex |
| | Caint | Canol Caint, Dwyrain Caint, Gogledd Caint | Caint |
| | Norfolk a Suffolk | Norfolk, Suffolk | Norfolk, Suffolk |
| | Surrey a Sussex | Surrey, Sussex (Canol), Sussex (Dwyrain), Gorllewin Sussex | Surrey, Sussex |
| | Dyffryn Tafwys | Swydd Buckingham, Berkshire, Swydd Rydychen | Dyffryn Tafwys |

| Rhanbarth | Ardal y Pwyllgor Ymgynghorol ar Recriwtio | Ardal Cyfiawnder Lleol | Mainc Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **De-orllewin Lloegr** | Avon a Gwlad yr Haf a Swydd Gaerloyw | Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Gaerloyw | Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Gaerloyw |
| | Dyfnaint, Cernyw a Dorset | Gogledd a Dwyrain Dyfnaint, De a Gorllewin Dyfnaint, Cernyw, Dorset | Dyfnaint, Cernyw, Dorset |
| | Hampshire, Ynys Wyth a Wiltshire | Gorllewin Hampshire, Dwyrain Hampshire, Gogledd Hampshire, Ynys Wyth, Wiltshire | Gorllewin Hampshire, Dwyrain Hampshire, Gogledd Hampshire, Ynys Wyth, Wiltshire |
| **Cymru** | Gogledd Cymru | Gogledd Canol Cymru, Gogledd-ddwyrain Cymru, Gogledd-orllewin Cymru, Ceredigion a Sir Benfro, Llanelli (Sir Gaerfyrddin), Sir Drefaldwyn | Gogledd Cymru, Ceredigion a Sir Benfro, Llanelli (Sir Gaerfyrddin), Sir Drefaldwyn |
| | De Cymru | Caerdydd, Canolbarth Cymru, Abertawe, Gwent | De Cymru, Canolbarth Cymru, Gwent |

# Atodiad I: Rhestr Termau

**Aelod o gomisiwn heddwch Cymru a Lloegr** – gweler 'Ynad'.

**Ardal brawf** – Unedau daearyddol sy'n strwythuro'r gwaith o oruchwylio troseddwyr sy'n bwrw dedfrydau cymunedol neu sydd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar i'r gymuned.

**Ardal cyfiawnder lleol** – Mae ardaloedd cyfiawnder lleol yn strwythuro gweinyddiaeth yr ynadaeth ledled Cymru a Lloegr. Cawsant eu sefydlu am y tro cyntaf gan Ddeddf Llysoedd 2003 i ddisodli strwythur blaenorol Adrannau'r Sesiynau Bach. Daeth yr ardaloedd cyfiawnder lleol cyntaf i rym yn 2005 gan ddefnyddio'r un ffiniau â ffiniau Adrannau'r Sesiynau Bach a oedd yn bodoli ar y pryd. Ers hynny, mae nifer o ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i ardaloedd cyfiawnder lleol, yn fwyaf diweddar yn 2016. Mae yna 75 ardal cyfiawnder lleol ar hyn o bryd, a'r rheini'n cynnwys rhwng un a phum llys ynadon mewn un ardal ddaearyddol.

**Ardaloedd cyfiawnder troseddol** – Mae'r rhain yn seiliedig ar yr ardaloedd sydd ynghlwm wrth bob heddlu tiriogaethol. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd cyfiawnder troseddol yn Lloegr yn cyfateb i siroedd Lloegr. Mae gan Gymru bum ardal, felly mae'r rhain yn gyffredinol yn fwy na'r 22 sir sydd yng Nghymru. Maent yn cael eu galw'n ardaloedd heddlu hefyd.

**Cadeirydd y Fainc** – Cadeirydd y Fainc sy'n arwain pob ardal cyfiawnder lleol ar hyn o bryd. Deddfir ynghylch Cadeiryddion y Fainc (y cyfeirir atynt fel Cadeiryddion mewn deddfwriaeth), eu rôl a sut cânt eu hethol i'r swydd, o dan adran 17 o Ddeddf Llysoedd 2003.

**Cylchdeithiau** – gweler 'Cylchdeithiau barnwrol'.

**Cylchdeithiau barnwrol** – Cylchdeithiau barnwrol, a elwir hefyd yn gylchdeithiau, yw'r chwe rhanbarth daearyddol penodol y rhennir Cymru a Lloegr iddynt at ddibenion y gyfraith. Y chwe chylchdaith yw Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Canolbarth Lloegr, Cymru, De-ddwyrain Lloegr a Llundain, a De-orllewin Lloegr. Mae rhanbarthau GLITEM yr un fath â'r cylchdeithiau, ac eithrio bod De-ddwyrain Lloegr a Llundain yn cael eu rhannu'n Dde-ddwyrain Lloegr, a Llundain. Mae map o'r cylchdeithiau a Llundain wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Er cysondeb, rydym wedi defnyddio'r term cylchdeithiau yn yr ymgynghoriad hwn yn hytrach na rhanbarthau, er bod hyfforddiant ynadon yn defnyddio rhanbarthau'n dechnegol. Oni nodir yn wahanol, rydym yn defnyddio'r term 'cylchdeithiau' i gyfeirio at y cylchdeithiau a Llundain.

**Cymdeithas yr Ynadon** – Y corff aelodaeth ar gyfer ynadon yng Nghymru a Lloegr.

**Dirwy** – Cosb ariannol a osodir gan lys ynadon.

**Gorchymyn adsefydlu ieuenctid** – Dedfryd gymunedol a roddir i droseddwyr dan 18 oed ar adeg yr euogfarn.

**Gorchymyn cymunedol** – Dedfryd ddigarchar sy'n gosod gofynion fel gwaith cymunedol ar y troseddwr.

**Gorchymyn Trosglwyddo Dirwy** – Mae'r drefn hon yn golygu ei bod yn bosibl gorfodi talu dirwy mewn ardal cyfiawnder lleol benodol, mewn achosion lle mae gan droseddwr warant heb ei thalu neu lle mae dirwyon heb eu talu mewn ardal cyfiawnder lleol arall.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF)** – Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi sy'n gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theulu yng Nghymru a Lloegr. Mae GLlTEF yn asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Llys cartref** – Dan ein cynigion, byddai pob ynad yn cael ei neilltuo i lys cartref, lle byddai disgwyl iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i eisteddiadau. Mae hyn yn debyg iawn i'r 'prif leoliad' y neilltuir ynadon iddo ar hyn o bryd.

**Llys ieuenctid** – Llysoedd ynadon yw'r llysoedd ieuenctid sydd â'r awdurdodaeth i wrando achosion ieuenctid. Nid yw pob llys ynadon yn cynnwys llys ieuenctid.

**Llys ieuenctid cartref** – Fel gyda llys cartref, byddai ynadon ieuenctid yn cael eu neilltuo i lys ieuenctid cartref, lle byddai disgwyl iddynt dreulio'r rhan fwyaf o'u heisteddiadau. Gall hwn fod yn lleoliad gwahanol i'w llys cartref, gan nad oes gan bob llys ynadon lys ieuenctid.

**Llys teulu** – Gall ynadon wrando achosion mewn llys teulu os ydynt wedi cael eu penodi'n ynad teulu neu wedi cael hyfforddiant ychwanegol. Mae'r ynadon hyn yn delio ag achosion am blant.

**Llys Ynadon** – Haen isaf y system llysoedd troseddol. Mae pob achos troseddol yn dechrau mewn llys ynadon. Gwrandewir achosion gan ddau neu dri ynad, neu gan farnwr rhanbarth. Nid oes rheithgor mewn llys ynadon.

**Mainc** – Ein cynnig ar gyfer system a fyddai'n strwythuro prosesau recriwtio a lleoli ynadon ar ôl diddymu'r ardaloedd cyfiawnder lleol, a nodir yn fanwl yn y papur hwn, yn enwedig ym Mhennod 1.

Er gwybodaeth, gall y gair 'mainc' gyfeirio at y canlynol hefyd:
- Y grŵp o ynadon mewn ardal cyfiawnder lleol
- Y grwpiau o ddau neu dri y bydd ynadon yn eistedd ynddynt yn y llys

**Paneli Dethol** – Paneli ynadon sy'n penodi ynadon ac ynadon teulu TAAACau. Ar hyn o bryd, mae aelodau pob panel yn cael eu hethol gan eu hardaloedd cyfiawnder lleol cyfansoddol.

**Prif leoliad** – Yn y system bresennol, mae disgwyl i ynadon eistedd yn unrhyw lys yn eu hardal cyfiawnder lleol. Yn ymarferol, mae gan bob un ohonynt 'brif leoliad', neu 'brif lys', lle maent yn treulio'r rhan fwyaf o'u heisteddiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei amlinellu mewn deddfwriaeth na chanllawiau swyddogol.

**Prif lys** – Gweler 'prif leoliad'

**Pwyllgor Ymgynghorol** – Mae Pwyllgorau Ymgynghorol Arglwydd Ganghellor ar Ynadon Heddwch yn gyrff cyhoeddus anadrannol ymgynghorol sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran yr Arglwydd Ganghellor. Rôl y Pwyllgorau Ymgynghorol Recriwtio, ynghyd â swyddogaethau allweddol eraill, yw recriwtio ac argymell ymgeiswyr i'w penodi i'r ynadaeth i'r Uwch Farnwr Llywyddol (gan ddefnyddio swyddogaethau ar ran yr Arglwyddes Brif Ustus). Mae rhestr lawn o swyddogaethau a rôl Pwyllgorau Ymgynghorol ar gael yn rhan un o Gyfarwyddiadau'r Arglwydd Ganghellor.

**Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu (TAAACau)** – Mae TAAACau yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu hyfforddiant i ynadon yn lleol. Mae dau fath o TAAAC: Troseddol a Theulu. Ar wahân i ddarparu hyfforddiant, mae'r TAAACau yn rhoi cymeradwyaeth i ynadon lywyddu yn y llys; maent yn rhoi ac yn dirymu awdurdodiadau i ynadon eistedd fel ynadon ieuenctid neu deulu; ac maent yn arfarnu perfformiad a chymhwysedd ynadon.

**Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu – Teulu (FTAAACau**) – gweler 'Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu (TAAACau)'.

**Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu – Ynadon (JTAAACau**) – gweler 'Pwyllgorau Hyfforddi, Cymeradwyo, Awdurdodi ac Arfarnu (TAAACau)'.

**Rhanbarthau** – gweler 'Rhanbarthau GLlTEM', uchod.

**Rhanbarthau GLlTEF** – Gweler 'Cylchdeithiau barnwrol'.

**Uwch Farnwr Llywyddol** – Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol yn aelod o'r Llys Apêl ac yn uwch farnwr arweiniol gyda chyfrifoldeb eang mewn perthynas â phenodi, lleoli a lles barnwyr y llysoedd. Dyma'r arweinydd barnwrol ar gyfer materion gweithredol sy'n effeithio ar sut mae'r llysoedd yn cael eu rhedeg. Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol hefyd yn penodi ynadon ar ran yr Arglwyddes Brif Ustus.

**Y Coleg Barnwrol** – Yr Arglwyddes Brif Ustus sy'n gyfrifol am drefniadau ar gyfer hyfforddi barnwriaeth y llysoedd yng Nghymru a Lloegr dan Ddeddf Diwygio

Cyfansoddiadol 2005. Mae gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd gyfrifoldeb cyfatebol mewn perthynas â barnwyr ac aelodau'r tribiwnlysoedd o fewn cwmpas Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Mae gan y Prif Grwner gyfrifoldebau tebyg, a amlinellir yn Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu harfer drwy'r Coleg Barnwrol.

**Ynad** – A elwir hefyd yn Ynad Heddwch, neu'n aelod o gomisiwn heddwch Cymru a Lloegr. Gwirfoddolwyr yw ynadon sy'n gwrando achosion mewn llysoedd yn eu cymuned. Gallant wrando achosion yn y llys troseddol, y llys teulu, neu'r ddau. Fel arfer, gwrandewir pob achos gan dri ynad, gan gynnwys ynad sydd wedi'i hyfforddi i fod yn gadeirydd, a elwir hefyd yn ynad llywyddol.

**Ynad Heddwch** – gweler 'ynad'.

**Ynad llywyddol** – Ynadon sy'n siarad ac yn llywyddu dros achosion yn y llys yw ynadon llywyddol; gelwir y ddau ynad arall sy'n rhan o achos yn asgellwyr. Fe'i gelwir hefyd yn gadeirydd.

**Yr Arglwydd Ganghellor** – Penodir yr Arglwydd Ganghellor gan y Brenin neu'r Frenhines ar gyngor y Prif Weinidog ac mae'n uwch aelod o'r Cabinet. Dyma bennaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

**Yr Arglwyddes Brif Ustus** – Yr Arglwyddes Brif Ustus yw Pennaeth y Farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae hefyd yn Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr ac yn gyfrifol am gynrychioli barn y farnwriaeth gerbron y Senedd a'r Llywodraeth.

# Amdanoch chi

Llenwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl eich swydd** neu ym mha swyddogaeth ydych chi'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut mae ymateb

## Sut mae ymateb

Dylech ymateb ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reform-of-local-justice-areas-consultation erbyn 23/06/25.

Fel arall, gellir postio ymatebion ysgrifenedig i:

**Magistrates Policy Team**
Post Point 9.20
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Neu eu hanfon dros e-bost i ljaconsultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad post uchod ac ar-lein hefyd yn https://www.gov.uk/government/consultations/reform-of-local-justice-areas

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan ljaconsultation@justice.gov.uk.

## Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ystod tymor yr hydref 2025. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydych yn cydnabod y gallai eich ymateb, ynghyd â'ch manylion personol, gael eu cyhoeddi neu'u datgelu yn unol â threfniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn y DU a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd hyn yn golygu na fyddant yn datgelu eich data personol i drydydd partïon.

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, sy'n delio ag ymrwymiadau cyfrinachedd ymysg pethau eraill. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi egluro i ni pam rydych chi o'r farn bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn wybodaeth gyfrinachol. Os byddwn ni'n cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rhwymol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r llywodraeth o'r farn ei bod yn bwysig – er mwyn bod yn dryloyw – fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau'r llywodraeth, a beth yw eu barn. Yn unol â hynny, efallai y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dewis peidio â thynnu eich enw a/neu'ch manylion oddi ar eich ymateb yn nes ymlaen, er enghraifft, os byddwch yn newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i'r manylion hynny fod ar gael yn gyhoeddus.

Os nad ydych yn dymuno i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu gwneud yn gyhoeddus fel hyn, fe'ch cynghorir i ddarparu ymateb yn ddienw (er enghraifft 'perchennog busnes lleol', 'aelod o'r cyhoedd' ac ati). Neu, gallwch ddewis peidio ag ymateb.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch Siarter Gwybodaeth Bersonol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.[35]

[35] https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice/about/personal-information-charter

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn Egwyddorion Ymgynghori 2018 Swyddfa'r Cabinet sydd i'w gweld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03309636

978-1-5286-5500-2

E03309636

978-1-5286-5500-2